CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# *Datganiad Cyfrifon Blwyddyn Ariannol 2008/09*

***A H Kirkham BA (Hons) CPFA***

**Pennaeth Gwasanaethau Ariannol**

# DATGANIAD CYFRIFON 2008/09

## CYNNWYS


| | TUDALEN |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 5 |
| RHAGAIR EGLURHAOL | 6 – 11 |
| DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL 2008/09 | 12 – 23 |
| DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R DATGANIAD CYFRIFON | 24 – 25 |
| - CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD | 24 |
| - CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADAIN 151 | 25 |
| ADRODDIAD YR ARCHWILIAD | 27 – 28 |
| DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISÏAU CADW CYFRIFON | 29 – 36 |
| DATGANIADAU CRAIDD: | |
| - CYFRIF INCWM A GWARIANT | 37 |
| - DATGANIAD AR SYMUDIADAU BALANS CRONFA'R CYNGOR | 38 |
| - DATGANIAD AR GYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG | 39 |
| - Y FANTOLEN | 40 – 41 |
| - DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN | 42 |
| NODIADAU AR Y DATGANIADAU CRAIDD: | |
| - NODIADAU AR Y CYFRIF INCWM A GWARIANT | 43 – 55 |
| - NODIADAU AR Y FANTOLEN | 56 – 74 |
| - NODIADAU PENSIWN | 74 – 77 |
| - NODIADAU OFFERYNNAU ARIANNOL | 78 – 83 |
| - NODIADAU AR Y DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN | 84 |
| CYFRIF REFENIW TAI | 85 – 93 |
| CRONFA'R DEGWM | 94 – 97 |
| YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST | 98 - 99 |

## CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n awdurdod unedol. Mae CBS Conwy'n darparu'r holl brif wasanaethau megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cynllunio a phriffyrdd. Ar 29 Medi 2008, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc CRT i Gartrefi Conwy - cymdeithas tai wedi ei ffurfio o'r newydd.

Mae poblogaeth o tua 112,000 ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae tua 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol sy'n mesur 75m ac sy'n cynnwys trefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae gweddill y boblogaeth wedi ei gwasgaru ar draws yr ardal sy'n ymestyn o Ddolwyddelan yn y de-orllewin a Llangwm a Dinmael yn y de-ddwyrain. Mae tua thraean o drigolion Conwy'n siarad Cymraeg a thua hanner y boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol wedi eu geni yng Nghymru.

### Llywodraethu Gwleidyddol

Mae 59 o Gynghorwyr etholedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cynrychioli 38 o wardiau. Dyma strwythur gwleidyddol presennol y Cyngor:

- 22 Ceidwadwyr
- 13 Annibynnol
- 13 Plaid Cymru
- 7 Llafur a
- 4 Democratiaid Rhyddfrydol

### Cyngor Llawn

Y Cyngor Llawn (59 o Gynghorwyr) sy'n pennu'r gyllideb a'r polisïau cyffredinol. Mae'n cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac yn trafod y gwahanol opsiynau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r fwrdeistref sirol. Mae'r Cyngor Llawn yn penodi Arweinydd y Cyngor ac Aelodau eraill y Cabinet, ac yn dyrannu cyfrifoldebau (portffolios) i Aelodau Cabinet. Y Cyngor Llawn hefyd yw canolbwynt unrhyw drafodaeth am berfformiad y Cabinet.

### Cabinet

Mae'r Cabinet yn cynnwys 9 o Gynghorwyr ynghyd ag Arweinydd y Cyngor sy'n cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Mae gan bob un o'r 9 Aelod o'r Cabinet portffolio penodol o gyfrifoldeb ar gyfer meysydd gwasanaeth y Cyngor.

**RHAGAIR EGLURHAOL**

1. Bwriad Datganiad Cyfrifon y Cyngor yw darparu gwybodaeth glir ynglŷn ag effaith ariannol gweithgareddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, ar ffurf sy'n hawdd ei deall.

2. Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2007 (SORP), sy'n darparu canllawiau ynglŷn â'r lefelau gofynnol o wybodaeth i'w darparu, a'r Cod Ymarfer Gwerth Gorau ar gyfer Cadw Cyfrifon.

3. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys cyfres o gyfrifon a datganiadau, pob un ohonynt â'i bwrpas penodol ei hun, fel a ganlyn:

(i) Datganiad o Bolisïau ac Egwyddorion Cadw Cyfrifon

Mae hwn yn egluro'r egwyddorion a'r polisïau sy'n sail i'r modd y cafodd Cyfrifon y Cyngor eu paratoi.

(ii) **Cyfrif Incwm a Gwariant**

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn dod â holl weithrediadau'r Awdurdod ynghyd ac yn crynhoi'r holl adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu creu, eu gwario neu eu rhoi ar un ochr wrth ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r sail i'r cyfrifyddu hwn yn cyd-fynd â'r darpariaethau statudol sy'n nodi'r gwariant net y mae'n rhaid i awdurdodau ei ystyried wrth bennu trethi lleol. Er mwyn rhoi cyflwyniad llawn ar berfformiad cyllidol awdurdod yn ystod y flwyddyn a grym gwario gwirioneddol a ddygir ymlaen i flynyddoedd i ddod, mae angen i'r ffigurau terfynol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant fod yn gyson â'r balans a sefydlwyd gan y darpariaethau statudol perthnasol.

(iii) **Datganiad ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor**

Mae'r datganiad hwn yn cysoni gweddill neu ddiffyg y Cyfrif Incwm a Gwariant gyda'r symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor, gan roi ystyriaeth i symudiadau statudol a symudiadau heb fod yn statudol.

(iv) **Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig**
Mae'r datganiad hwn yn dod ag enillion a cholledion cydnabyddedig y Cyngor ynghyd ac yn nodi'r rhai nad oedd wedi cael eu cydnabod yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

(v) **Y Fantolen**

Mae'r Fantolen yn disgrifio sefyllfa ariannol y Cyngor ar Fawrth 31ain 2009. Mae'n dangos y balansau a'r cronfeydd wrth gefn a'r ddyled hir dymor a'r asedau sefydlog a net presennol a ddefnyddir yng ngweithrediadau'r Cyngor.

(vi) **Datganiad Ynglŷn â Llif Arian**

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r mewnlif ariannol a'r all-lif ariannol sydd wedi deillio o drafodion ariannol gyda thrydydd parti i bwrpas Refeniw a Chyfalaf.

(vii) **Y Cyfrif Refeniw Tai**

Mae'r Cyfrif hwn yn adrodd ar yr Incwm a Gwariant mewn perthynas â darparu tai Cyngor. Ar 29 Medi 2008, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc CRT i Gartrefi Conwy – cymdeithas tai wedi ei ffurfio o'r newydd.

4. **Mae gennym ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.**

Mae **gwariant refeniw'n** cynnwys gwario ar gostau dydd i ddydd ein gwasanaethau megis cyflogau staff, cynnal adeiladau a chyflenwadau ac offer cyffredinol. Mae'r gwariant hwn yn cael ei dalu gan yr incwm yr ydym yn ei dderbyn gan drethdalwyr y Cyngor, trethdalwyr busnes, ffioedd a thaliadau am wasanaethau neilltuol, a gan y grantiau a dderbyniwn gan y llywodraeth.

Mae **gwariant cyfalaf** yn cynnwys gwario ar asedau megis ffyrdd, ailddatblygu a gwaith adnewyddu sylweddol i adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn sicrhau buddion i'r gymuned am flynyddoedd lawer ac mae'r gwariant yn cael ei ariannu'n bennaf drwy fenthyciadau, grantiau cyfalaf a gwerthu asedau sefydlog. Mae'r arian a fenthycir i bwrpas cyfalaf yn cael ei ad-dalu'n rhannol bob blwyddyn fel rhan o'n gwariant refeniw.

4.1 **Adolygiad o'r Flwyddyn – Gwariant Refeniw**

Yn wreiddiol pennwyd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2008/09 yn £177.7m (£171.7m yn 2007/08) a rhoddwyd ystyriaeth i gynnydd mewn prisiau a dyfarniadau tâl hysbys a rhai a amcangyfrifwyd.

Pennwyd y gyllideb yn erbyn cefndir o setliad ariannol gwael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gweithredwyd pecyn arbedion ac effeithlonrwydd heriol er mwyn pennu'r gyllideb o fewn yr adnoddau oedd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n fanwl yn ystod y flwyddyn, yn unol â gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn ariannol roedd pwysau ar y gyllideb yn sgil y cynnydd mewn prisiau ynni a thanwydd, wedi'i osod yn erbyn arian TAW un tro ac arbedion mewn llog a dalwyd. Cafodd gorwariant mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant a Phobl Hŷn ei liniaru gan arbedion ar yr Uned Darparwyr. Cytunodd y Cyngor i neilltuo adnoddau i gronfeydd wrth gefn Gwerthuso Swyddi ac Ymddeol. Hefyd, mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau hysbys, lle y bo'n ofynnol yn ôl statud, ar gyfer rhwymedigaethau'r dyfodol yn cynnwys y Dyfarniad Tâl o 0.3% ar gyfer 2008/09.

Cyfanswm gwariant net gwirioneddol oedd £177.5m, ac mae'n braf nodi bod y Cyngor wedi sicrhau cyfanswm gwariant net o fewn y gyllideb, er gwaethaf yr amrywiadau arferol o orwario a thanwario mewn gwasanaethau unigol. Dangosir isod brif elfennau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2008/09 a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r ffigurau terfynol gwirioneddol:

| Col 1<br><br>GWASANAETH | Col 2<br>AMCANGYFRIF GWREIDDIOL<br>2008/09<br>£'000 | Col 3<br>SEFYLLFA A GYMERADWYWYD YN RHAGFYR<br>2008/09<br>£'000 | Col 4<br>FFIGURAU TERFYNOL<br>2008/09<br>£'000 | Col 5<br>AMRYWIAD (Col 4 - Col 3)<br>2008/09<br>£'000 | NODIADAU |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen Adnoddau** | | | | | |
| Grant Cymorth Refeniw | (111,267) | (111,267) | (111,267) | 0 | |
| Grant NNDR | (29,792) | (29,792) | (29,792) | 0 | |
| Treth y Cyngor | (36,655) | (36,655) | (36,481) | 174 | 1 |
| **Is-gyfanswm** | **(177,714)** | **(177,714)** | **(177,540)** | **174** | |
| **Cyllideb** | | | | | |
| Cyfraniad o Gronfeydd wrth Gefn | (90) | (90) | (90) | 0 | |
| Cyfraniad o'r Balans | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Cyfraniad i/o Gronfeydd wrth Gefn | | | | | |
| - Cronfa Gwasanaethau sy'n ymateb i alw – i ariannu Gwasanaethau Plant | 0 | 53 | 0 | (53) | 2 |
| - Cyfraniad ychwanegol i Wasanaethau sy'n ymateb i alwr (arian wrth gefn ar gyfer risg) | 0 | 365 | 365 | 0 | |
| - Cyfraniad i Gronfa Rheoli'r Trysorlys | 0 | | 200 | 200 | 3 |
| - Cyfraniad gan Gronfeydd wrth gefn ar gyfer incwm Treth y Cyngor | 0 | 0 | (144) | (144) | 1 |
| Addysg | 70,154 | 69,997 | 69,997 | 0 | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 44,259 | 43,587 | 43,587 | 0 | |
| Priffyrdd | 10,655 | 11,626 | 11,621 | (5) | |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 12,207 | 12,484 | 12,484 | 0 | |
| Tai Sector Preifat | 776 | 478 | 433 | (45) | 4 |
| Ardollau | 5,600 | 5,600 | 5,659 | 59 | 5 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 9,873 | 9,873 | 9,587 | (286) | 6 |
| Llog Corfforaethol a Gafwyd | (2,091) | (2,166) | (2,090) | 76 | 6 |
| Darpariaeth ar gyfer Tâl ar draws yr Awdurdod | 0 | 0 | 72 | 72 | 7 |
| Iechyd Galwedigaethol | 90 | 90 | 124 | 34 | 8 |
| Eraill | 26,281 | 25,817 | 25,735 | (82) | 9 |
| **Cyfanswm** | **177,714** | **177,714** | **177,540** | **(174)** | |

**Nodiadau**

1. Diffyg yn yr incwm a gyllidwyd o Dreth y Cyngor oherwydd cyfraddau casglu is
2. Gwasanaethau Plant wedi gorwario llai nag a ragamcanwyd
3. Cyfraniad i gronfa wrth gefn i helpu gyda phwysau ar y gyllideb yn 2009/10
4. Arbedion o swyddi gwag
5. Gorwario ar ffioedd Crwner yn cyd-fynd â lefelau uwch o farwolaethau'n ardal Conwy
6. Gostyngiad mewn llog a dalwyd oherwydd ad-drefnu, wedi ei osod yn erbyn y gostyngiad mewn llog a enillwyd oherwydd y dirywiad economaidd
7. Darpariaeth ar gyfer 0.3% o ddyfarniad cyflog ychwanegol wedi ei osod yn erbyn arbedion streic
8. Atgyfeiriadau ychwanegol at Iechyd Galwedigaethol
9. Addasiadau bychain eraill i'r gyllideb ar draws meysydd gwasanaethau eraill

Mae gweddill Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn fesur o'r arian wrth gefn heb ei ymrwymo sydd gan y Cyngor i ateb gofynion llif ariannol a digwyddiadau na ellir eu rhagweld yn y dyfodol. Roedd gweddi cronfa'r Cyngor yn £3.0 miliwn ddiwedd y flwyddyn, ac ystyrir bod hyn yn swm gofalus. Dangosir cronfeydd wrth gefn eraill yn Nodyn 28 y Cyfrifon.

5. **Atebolrwydd Pensiwn – Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS17)**

Mae'r Cyfrifon, fel y cyflwynir hwy, yn cydymffurfio â gofynion y safon uchod gan eu bod yn adlewyrchu yn y cyfrifon refeniw cost flynyddol gyfredol y ddarpariaeth bensiwn i weithwyr fel y cynghorir gan actwari'r Cyngor. Mae'r Datganiadau hefyd yn cynnwys, o fewn y Fantolen, asesiad yr actwari o gyfran yr Awdurdod o atebolrwydd y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2009 a'r gronfa wrth gefn sydd ei hangen i ariannu'r atebolrwydd hwnnw.

Mae'r rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn sy'n cael ei nodi ar y Fantolen yw'r cyfanswm diffyg a ragamcanwyd yn ystod oes ddisgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau a thybiaethau actiwari a wneir o ran y pensiynwyr presennol, pensiynwyr sydd wedi gohirio'u pensiwn a gweithwyr presennol. Yn 2008/09 cafwyd cryn ostyngiad yng ngwerth asedau'r gronfa oherwydd y sefyllfa economaidd bryd hynny ac mae hynny wedi arwain at gynnydd yn y rhwymedigaethau net.

Mae'r gronfa'n amodol ar brisiant bob tair blynedd sy'n asesu cyflwr y gronfa bensiwn ar y pryd ac yn gwneud argymhellion i'r gwahanol gyrff sy'n rhan o'r gronfa ynglŷn â chyfradd briodol cyfraniadau cyflogwyr er mwyn adfer y gronfa i sefyllfa gytbwys dros gyfnod o amser.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun statudol, ac yn hynny o beth, drwy ddeddfwriaeth yn unig y gellir newid buddion a gronnir o dan y cynllun.

6. **Gwariant Cyfalaf**

Y ogystal â gwario arian i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian i ddarparu cyfleusterau newydd fel ysgolion, ffyrdd a thai, neu eu hadnewyddu. Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £34.5 miliwn yn 2008/09. Dyma grynodeb fuddsoddiad cyfalaf mewn meysydd gwasanaeth yn 2008/09 a sut ariannwyd hynny:

| Gwariant Cyfalaf | 2008/09 Gwirioneddol £'000 |
|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf yn ôl Gwasanaeth:** | |
| Addysg | 8,431 |
| Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol | 7,111 |
| Isadeiledd a Chludiant | 4,467 |
| Tai Sector Preifat | 3,558 |
| Datblygu Cymunedol - Adfywio | 1,751 |
| Datblygu Cymunedol – Gwasanaethau Hamdden | 1,545 |
| Datblygu Cymunedol – Llyfrgelloedd | 262 |
| Gofal Cymdeithasol | 1,332 |
| Cynllunio a Chefn Gwlad | 974 |
| Technoleg Gwybodaeth | 724 |
| Peirianneg a Dylunio | 647 |
| Theatrau | 81 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 3,009 |
| Eraill | 482 |
| Croniadau Net | 91 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **34,465** |

| Ariannu Cyfalaf | 2008/09 Gwirioneddol £'000 |
|---|---|
| **Drwy:** | |
| Benthyca â Chymorth | 5,968 |
| Benthyca Darbodus | 2,919 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,583 |
| Grantiau Cyfalaf | 21,255 |
| Arian Cyfalaf wrth Gefn | 720 |
| Refeniw | 1,020 |
| **Cyfanswm Ariannu Cyfalaf** | **34,465** |

Gellir ariannu'r gwariant Cyfalaf trwy Fenthyciad gyda Chefnogaeth pan fydd costau yn cael eu hariannu trwy'r Grant Cefnogi Refeniw, a Benthyca Darbodus pan fydd y costau yn cael eu hariannu gan gyllideb refeniw'r Cyngor.

Ymgymerwyd â'r prosiectau mawr a ganlyn yn 2008/09:

- Gwella Strydwedd Bae Colwyn ac effaith weledol canol y dref
- Llwybr Strategol Moryd Conwy i ddarparu llwybr diogel oddi ar y ffordd i feicwyr a cherddwyr o amgylch y Foryd
- Canolfan Iechyd yng Nghanolfan Hamdden Bae Colwyn - prosiect mewn partneriaeth â'r Bwrdd a'r Ymddiriedolaeth Iechyd Lleol, ac Age Concern, i greu ymagwedd gyfannol tuag at ofal iechyd.
- Gwaith lliniaru llifogydd, Afon Bach, Llanrwst
- Prosiectau adnewyddu mawr mewn ysgolion sefydledig, gyda chymorth grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Adnewyddu goleuadau stryd oedd wedi dirywio ac ail-wynebu ffyrdd mewn gwahanol leoedd ledled y Sir
- Gwaith dechreuol ar atgyweirio isadeiledd pont Maesdu.

Dyled hirdymor y Cyngor ar 31 Mawrth 2009 oedd £113.9m, sy'n ostyngiad o £26m yn sgil ad-dalu dyled ar drosglwyddo stoc.

Dyma Derfynau'r Gweithgareddau Benthyca yn 2008/09, a bennwyd yn unol â'r Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdod lleol a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y Cod Darbodus) fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol | 180m |
| Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol | 170m |

## 7. Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Yr effaith mwyaf sylweddol ar gyfrifon 2008/09 oedd Trosglwyddiad Gwirfoddol Graddfa Fawr (LSVT) anheddau'r Cyngor i'r landlord newydd Cartrefi Conwy ar 29 Medi 2008. Mae trosglwyddiad wedi arwain at gofnodion sylweddol yn y cyfrifon sydd wedi'u hadlewyrchu yn y Cyfrif Refeniw Tai. Mae crynodeb o'r cofnodion fel a ganlyn:

- Ysgrifennu gwerth y Stoc Tai ac asedau eraill a drosglwyddwyd o'r Fantolen (£138.5m)
- Cyllid Cynulliad Cymru (£25.8m) i dalu gwerth cyfwerth y benthyciadau oedd yn ddyledus ac oedd yn ymwneud â'r stoc tai, ac asedau eraill a drosglwyddwyd, a £7.3m ychwanegol i dalu costau talu'r benthyciadau hyn yn fuan.
- Cofnodi'r cytundeb trosglwyddo lle byddai Cartrefi Conwy yn gwario (£142.1miliwn ) i sicrhau bod y stoc tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae Cartrefi Conwy wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli a chynnal y stoc tai. Oherwydd bod y gost o gynnal a thrwsio'r tai dros gyfnod o 30 mlynedd yn uwch na'u gwerth, arweiniodd hyn at brisiant negyddol ar gyfer trosglwyddo'r stoc ac ni chynhyrchwyd unrhyw arian o'r gwerthiant. Oherwydd y diffyg roedd rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu'r costau o hwyluso'r trosglwyddiad drwy'r taliadau cyllid dechreuol i Cartrefi Conwy ac ad-dalu'r portffolio dyled Tŷ Cyngor. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2008/09 ar dudalennau 86 i 94 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 28 Medi 2008.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb parhaus i baratoi Cyfrifon Refeniw Tai er gwaethaf yr absenoldeb stoc, nes bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol fel arall. Fel arfer, bydd awdurdodau lleol yn paratoi'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn sy'n dilyn y trosglwyddiad cyn i'r gymeradwyaeth gael ei hystyried.

Yn 2008/09, roedd ein Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar ddiffyg ariannol o £1.9m (2007/08: £420k) gan ddod â lefel y gronfa cyfrif refeniw tai wrth gefn i £189mil.

Mae lefel y gweddill HRA ar ôl cau cyfrifon 2008/09 yn dangos ei fod bron yn gytbwys ar ôl setlo'r atebolrwydd pensiwn a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo i Cartrefi Conwy.

# DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL 2008/2009

## 1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("yr Awdurdod") yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei reoli yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Cyflwynwyd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) yn 2002; a diweddarwyd y rhaglen gan gylchlythyr 2005. Mae WPI yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol foderneiddio ei wasanaethau i gyflawni'r dyletswyddau yr ymddiriedwyd ynddynt gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a'u bod yn gwneud trefniadau i sicrhau fod eu dull o arfer eu dyletswyddau yn gwella yn barhaus dan ystyried darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gyda'i gilydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb gyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol hefyd am sicrhau fod system rheolaeth fewnol gadarn sydd yn gymorth i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

## 2. PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Amcan y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg ar lefel rhesymol yn hytrach na dileu'r holl risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; oherwydd hynny nid yw ond yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol o effeithlonrwydd ac nid sicrwydd llwyr. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei seilio ar broses barhaus i ddarganfod a blaenoriaethu'r risgiau sydd yn ymwneud â chyflawni polisïau, amcanion a nodau'r Awdurdod, o werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae gan Awdurdodau yng Nghymru'r cyfle i gynhyrchu un ai Datganiad Rheoli neu Ddatganiad ar Reolaeth Fewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/2009. Mae Conwy wedi penderfynu parhau gyda'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol (SIC) oherwydd ei fod yn teimlo bod y Datganiad hwn yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r rheolaeth a'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn well drwy gydol 2008/2009. Bydd yr Awdurdod yn llunio Datganiad Llywodraethu yn 2009/10.

## 3. AMGYLCHEDD RHEOLAETH FEWNOL

Mae gan yr Awdurdod awyrgylch rheoli gadarn a dangosir elfennau allweddol ohono isod. Mae'r amgylchedd rheolaeth fewnol wedi hen sefydlu rŵan yng Nghonwy ac wedi'i brif ffrydio yn nhrefniadau busnes y Cyngor.

Roedd yr Uwch Dim Gweithredol (UDG) yn cyfarfod ar Ddydd Mawrth cyntaf a'r trydydd Dydd Mawrth bob mis ac yn cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, yn ogystal â'r Pennaeth Statudol Addysg. O fis Awst 2008 ymlaen, cyfarfu'r Grŵp Gweithredol ar yr un diwrnodau ac roedd yn cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151.

Mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau (GAA) yn archwilio adroddiadau sydd wedi eu trefnu i fynd i'r Cabinet, ac yn ystyried cynlluniau gwaith i'r dyfodol o'r swyddogaethau Craffu i ffurfio barn o'r patrymau gwaith sy'n datblygu ac yn amlygu unrhyw feysydd gallu a allai godi. Hefyd mae'r Grŵp yn ceisio sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau gwaith Cabinet, y swyddogaeth Graffu a Rheolaeth Strategol.

Mae'r Tîm Rheolaeth Strategol (TRhS) yn cyfarfod bob mis ac yn cynnwys y Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd a'r Prif Weithredwr a'r ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol. Mae'r holl faterion rheoli a strategol pwysig yn llifo drwy'r grŵp hwn, ac maent yn drafftio cynlluniau a pholisïau sydd yn effeithio ar y sefydliad wedi eu cynnwys o fewn y rhaglen cyn dod yn bolisi trwy'r broses ddemocrataidd.

Sefydlwyd y grwpiau i ddarparu'r gallu angenrheidiol i wneud penderfyniadau allweddol ar faterion rheoli adran ar draws y Cyngor, ac i ystyried risg, datblygu polisi a materion cyhoeddusrwydd, a bod yn ymwybodol o effeithiau niweidiol sydd yn effeithio ar Gonwy. Hefyd mae'r grŵp yn ystyried materion cenedlaethol, isranbarthol a lleol ynghyd â materion trawsawdurdod mewn ymdrech i ostwng gweithio unigol a hyrwyddo cysondeb. Mae hefyd yn cysylltu ag Aelodau i sicrhau fod dealltwriaeth a phwrpas cyffredin i waith y Cyngor.

Daeth system weinyddu wleidyddol newydd i rym ym mis Mai 2008, gan gynnwys 17 Aelod Etholedig newydd. Roedd y rhaglen gyflwyno gynhwysfawr ar gyfer Aelodau newydd a rhai oedd yn dychwelyd yn cynnwys Rheoli, Ymddygiad a Chyllid.

## 3.1 Prif Elfennau'r Amgylchedd Rheolaidd.

- Mae'r Cyngor yn gweithredu ei fusnes trwy'r Cyfansoddiad sy'n nodi Fframwaith Polisi'r Cyngor a dull gweithredu'r Awdurdod, sut y gwneir penderfyniadau, a'r trefnau a ddilynir i sicrhau ei fod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

- Mae'r Cyfansoddiad yn cwmpasu Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Pwerau a ddirprwywyd, ynghyd â Chodau Ymddygiad i Aelodau a gweithwyr cyflogedig. Adolygir a diweddarir y Cyfansoddiad yn rheolaidd ac mae ar gael ar ffurf copi caled a hefyd ar Wefan a Mewnrwyd y Cyngor .

- Sefydlwyd y prif elfennau mewn Cod Lleol o Lywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu'r fframwaith a luniwyd gan CIPFA/SOLACE. Mae Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn chwarae rhan weithredol o ran hyrwyddo safonau uniondeb ymysg Aelodau. Mae gan yr Awdurdod Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredd sy'n nodi cyfrifoldebau Aelodau a staff wrth hyrwyddo diwylliant o onestrwydd a chywirdeb. Nodir mesurau hefyd ar gyfer atal, canfod ac ymchwilio i gyhuddiadau o dwyll a llygredd ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill a defnyddio asiantaethau disgyblu os yw'n briodol.

- Mae trefnau sefydledig ar waith ar gyfer pennu a monitro amcanion yr Awdurdod, ac mae'r Awdurdod yn meddu ar broses llunio polisi a phenderfynu priodol. Mae'r Cabinet ac uwch swyddogion yn ailedrych yn fanwl ar flaenoriaethau a nodau tymor hwy bob blwyddyn mewn cyfarfod cynllunio strategol a sefydlwyd i adolygu'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Datblygwyd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer yr Awdurdod yn ystod 2008/2009, a daeth hyn yn dilyn prosesau sydd wedi eu hen sefydlu sy'n gweithredu o fewn Conwy. Wrth baratoi ar gyfer pennu'r prif gyflawniadau strategol sydd yn y Cynllun Corfforaethol, bydd y broses hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr asiantaethau partner allweddol.

- Mae'r Adain Archwilio Mewnol, er ei fod yn annibynnol ac nad yw'n rhan o brosesau dydd i ddydd, yn cynnig argymhellion ar sut i wella rheolaeth fewnol o fewn yr Awdurdod.

- Nodwyd pum thema yn y Strategaeth Gymunedol a gafodd ei chefnogi gan y prif gyflawniadau strategol a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio proses gyllidebu ar sail blaenoriaethau a risg sy'n ceisio cadeirio adnoddau refeniw a chyfalaf fel eu bod yn gwireddu blaenoriaethau a risgiau strategol. Mae Grŵp Cyfalaf Strategol yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r broses hon o safbwynt adnoddau cyfalaf. Mae'r Grŵp Cyfalaf yn gweithredu o fewn blaenoriaethau sydd yn y Fframwaith Rheolaeth Gyfalaf a gymeradwywyd.

- Mae rhwymedigaethau statudol, blaenoriaethau a blaenoriaethau i wasanaethau wedi eu cynnwys yn Cynlluniau Busnes Gwasanaethau ac mae'r Cynlluniau Gweithredol a lunnir bob blwyddyn gan bob gwasanaeth yn ategu hyn.

- Rhoddir gwybod am themâu, blaenoriaethau a phrif gyflawniadau strategol yr Awdurdod ledled y gymuned a thrwy'r Awdurdod drwy'r wefan, datganiadau'r wasg, briffiau tîm, a thrwy gyhoeddi'r Cynllun Gwella Blynyddol. Hefyd, mae Conwy yn dosbarthu newyddlen Cyngor i'w holl breswylwyr gan roi gwybod i'r gymuned am ei lwyddiannau, sialensiau a'i wasanaethau.

- Mae'r cynnydd at gyflawni'r amcanion yn cael ei fonitro mewn adolygiadau perfformiad gwasanaeth yn yr Awdurdod.

- Sefydlwyd nifer o fyrddau gwella yn ystod 2008/2009 i fonitro prosiectau a mentrau a ddechreuwyd i gynorthwyo gyda darparu ein blaenoriaethau.

**3.2 Hwyluso Polisi a Phenderfyniadau.**

- Cyfarfu'r Cyngor bob tua 12 wythnos yn ystod 2008/2009, a chafwyd cyfarfodydd o'r Cabinet ar bob ail a phedwerydd Dydd Iau ymhob mis i gyflawni ei rôl o wneud polisïau a phenderfyniadau. Yn ogystal mae gan yr Awdurdod hefyd dri phwyllgor rheoleiddio. Cafwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio bob mis, y Pwyllgor Archwilio bob chwarter, a chyfarfu'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio chwe gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Fforwm Ysgolion yn gweithredu yn unol ag arweiniad WAG; cafwyd cyfarfod o'r fforwm hefyd yn ystod 2008/2009.

- Mae'r Cabinet hefyd yn cyflawni swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r Awdurdod. Neilltuir meysydd portffolio penodol i Aelodau'r Cabinet ac mae hyn yn cynorthwyo'r Cabinet i fonitro gweithgareddau'r Awdurdod.

- Fel y nodir uchod, mae'r broses benderfynu ffurfiol yn cael ei hategu gan Gynllun Pwerau Dirprwyedig a Chodau Ymddygiad.

- Mae'r Awdurdod hefyd yn rhedeg pedwar Pwyllgor Craffu gan gynnwys y Prif Bwyllgor Craffu. Nhw sydd yn gyfrifol am ddatblygu polisi ac maent yn adolygu ac yn craffu ar benderfyniadau'r Cabinet. Mae gan bob Pwyllgor raglen waith strwythuredig a chylch gorchwyl tryloyw.

- Er mwyn hwyluso llywodraethu corfforaethol, mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Safonau a Phwyllgor Archwilio, a'r cyntaf yn cynnwys mwyafrif o aelodau sydd yn annibynnol o'r Awdurdod.

- Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd fel arfer er bod rhai eithriadau lle ceir eitemau eu trafod yn breifat fel y mae'r gyfraith yn ei gorchymyn neu ei ganiatáu.

- Mae rhaglenni, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd a'r Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

**3.3 Sicrhau cydymffurfiad â Pholisïau Sefydledig, Gweithdrefnau, Deddfau a Rheoliadau.**

- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr Awdurdod yw'r Swyddog Monitro o fewn Conwy. Swyddogaeth y Swyddog Monitro yw sicrhau cydymffurfiad gyda pholisïau sefydledig, trefnau, deddfau a rheoliadau.

- Y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ydi'r Swyddog â Chyfrifoldeb Ariannol ac mae'n gyfrifol am drefniadau o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- Mae rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol sydd wedi eu nodi yn y Cyfansoddiad.

- Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol sy'n dilyn safonau a nodir yng nghanllawiau CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael yn adrodd yn ddiduedd ac yn enw ei hun ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cynnwys holl weithgareddau busnes yr Awdurdod, a chaiff fynediad di-rwystr at yr holl bersonél, cofnodion ac asedau mewnol er mwyn cyflawni ei waith.

- Mae gan yr Awdurdod Pwyllgor Archwilio sefydledig sydd yn monitro ac yn gwerthuso trefniadau rheolaeth fewnol, ac mae aelodau'r pwyllgor yn cael copïau o'r holl adroddiadau archwilio allanol. Rhoddir copïau o'r holl adroddiadau archwilio mewnol i aelodau'r Pwyllgor (ac i Aelodau a Swyddogion Uwch eraill) a chaiff y Pwyllgor gyfle i holi'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael a swyddogion eraill am unrhyw faterion sydd wedi codi o'r adroddiadau ac ymatebion gan wasanaethau.

- Archwilir yr Awdurdod yn allanol gan KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae sawl asiantaeth yn ei arolygu a'i adolygu yn allanol ymhellach. Dyma eglurhad o'r gwaith a ddarperir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol :

- KPMG – Archwilio'r Cyfrifon, casgliad ar y trefniadau i sicrhau gwerth am arian, archwilio'r cynllun gwella, gwaith perfformiad lleol, astudiaethau llywodraeth leol, archwiliad o geisiadau grant.

- SAC - Archwilio, mae'r gwaith arall gan SAC yn cynnwys gwaith a wneir fel rhan o'r rhaglen waith i'r dyfodol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae gan yr Awdurdod agwedd ymarferol ac adeiladol tuag at adroddiadau'r a'r argymhellion a wneir gan asiantaethau allanol gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael ei chynnal rhwng uwch swyddogion y Cyngor ac arolygwyr allanol. Mae gwahoddiad agored i'r Rheolwr Prosiect SAC a KPMG ddod i'r Pwyllgor Archwilio. Mae gan yr Awdurdod Grŵp Gwella ac Archwilio i gyfarwyddo'r Broses Asesu Risg ar y Cyd gyda rheoleiddwyr allanol ac i sicrhau fod y risgiau a amlygwyd yn cael eu trin yn briodol. Hefyd, mae'r Grŵp yn adolygu cynnydd a wneir a'r argymhellion a wnaed gan yr Uned Archwilio Mewnol a'n rheoleiddwyr a'n harolygwyr.

- Mae gan yr Awdurdod sawl strategaeth a pholisi corfforaethol i hybu cydymffurfiad a'n gweithdrefnau cytunedig. Ymhlith y strategaethau hyn y mae'r Strategaeth Pobl Corfforaethol, Caffael, Iechyd a Diogelwch a Chwynion.

- Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio gyda gofynion cyfraith cyfle cyfartal yn ei holl fusnes.

- Mae cydymffurfiaeth efo polisïau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau a sefydlwyd yn cael eu monitro yn ofalus. Mae pob adroddiad sy'n cael ei greu yn cynnwys adran sy'n ystyried nifer o oblygiadau yn ogystal ag adrannau sy'n nodi sut mae penderfyniad mewn adroddiad yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Corfforaethol a chymhellion allweddol eraill y corff gan gynnwys risg.

### 3.4 Canfod, Asesu a Rheoli Risgiau i Amcanion yr Awdurdod

- Cymeradwyodd a mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg manwl ym mis Hydref 2005, sy'n cynnwys fframwaith rheoli risgiau ar draws y Cyngor, ac yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg.

- Mae'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol bod risg yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o'u penderfyniadau ac mae pob adroddiad i'r cyrff hynny yn cynnwys adran yn gwneud sylwadau ar faterion risg. Y Prif Weithredwr yw Cefnogwr Rheoli Risg yr Awdurdod, a chaiff ei gynorthwyo gan uwch swyddogion sydd wedi ysgogi'r broses hyd yn hyn.

- Y Pennaeth Gwasanaeth yw'r swyddog sydd yn gyfrifol am reoli risg yn ei wasanaeth penodol.

- Mae gan yr Awdurdod Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'n cael ei chynnal a'i reoli trwy'r Grŵp Gweithredol a'r Uwch Dim Rheoli (UDR). Caiff risgiau eu hadrodd i'r Aelodau yn ffurfiol trwy'r broses ddemocrataidd a thrwy'r Cabinet anffurfiol. Caiff y Gofrestr ei hystyried yn rheolaidd gan y Penaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'r cyfarfodydd Uwch Dim Rheoli (UDR). Mae'r Awdurdod yn ystyried risg ynghyd ag archwilwyr allanol yn chwarterol, ac mae'r broses hon yn caniatáu'r risgiau o fewn y Templed Asesiad Risg gael ei hystyried mewn modd rheolaidd a strwythuredig ac efo cefnogaeth a sialens allanol. Hefyd, mae risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried yn ystod y broses Fframwaith Cynllunio Busnes sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r Awdurdod.

- Pan mae'r Awdurdod yn gosod ei gyllideb mae ei Aelodau yn ystyried y lefel o risg ac ansicrwydd ynglŷn â'i amcangyfrifon cyllidol ac amgylchiadau cyffredinol. Mae'r broses o osod cyllideb yn cael ei ategu gan ymwybyddiaeth risg fel egwyddor cynllunio busnes ac ariannol craidd.

- Lluniwyd ac adolygwyd cofrestrau o risgiau i'r gwasanaeth yn ystod 2008/2009 er mwyn canfod ac ystyried y prif risgiau sy'n effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Trwy'r broses o Asesiad Risg ar y Cyd, cyd-drefnodd yr Archwilwyr eu hymateb i'r hunanasesiad o'r risgiau a wnaed gan ein gwasanaethau. Y Casgliadau a gytunwyd arnynt yw sail y Templed Asesiad Risg Cryno.

- Nid oes gan yr Awdurdod Gynllun Parhad Busnes cynhwysfawr ar gyfer yr Awdurdod cyfan. Mae'n cynllunio rhag argyfyngau mawr fel llifogydd a'r posibilrwydd o bandemig

### 3.5 Sicrhau'r Gwerth Gorau a Gwella Parhaus.

- Mae'r archwilydd allanol, asiantaethau allanol, Archwilio Mewnol, Pwyllgorau Craffu a'r byrddau prosiect mewnol yn cyflawni hyn mewn sawl ffordd gan gynnwys trwy adolygiadau ac archwiliadau.

- Cyflwynodd yr Awdurdod Fyrddau Gwella yn ystod 2007/2008 i gymell moderneiddio gwasanaeth datblygiad sefydliadol a herio'r defnydd o adnoddau yn yr Awdurdod. Cyfarfu'r pedwar Bwrdd yn rheolaidd yn ystod 2008/2009 i gyfrannu at nod y Cyngor o sicrhau gwerth gorau a gwelliant parhaus

- Mae'r Awdurdod wedi datblygu proses adolygu mewnol wedi ei hanelu at fonitro gwelliant ar draws naw thema allweddol a fabwysiadwyd gan Gonwy. Cynhelir yr asesiad gan baneli o staff ac Aelodau Etholedig ac maent yn gwneud argymhellion ar y ffyrdd i wella perfformiad, deilliannau a chanlyniadau o fewn yr Awdurdod.

- Mae'r Awdurdod yn chwilio yn gyson am ffyrdd o sicrhau fod defnydd economegol, effeithiol ac effeithlon yn cael ei wneud o adnoddau ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff swyddogaethau eu harfer.

- Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol neu ei gynrychiolydd yn asesu pob adroddiad a datblygiad sydd â chanlyniadau ariannol.

- Mae'r Awdurdod hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o glybiau meincnodi ar gyfer amryw o wasanaethau fel y gellir cymharu perfformiad, costau a'r arferion gorau.

- Mae'r Awdurdod yn cydweithio'n ymarferol â phartneriaid fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol eraill a'r Gwasanaeth Prawf.

- Mae'r Awdurdod hefyd wedi cymryd agwedd rhagweithiol tuag at y rhaglen e-lywodraeth, a hefyd yn buddsoddi systemau busnes diweddaraf fel y System Adnoddau Dynol / Cyflogaeth, a'r System Lles Cymdeithasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio'r rhaglen e-lywodraeth i gymell gwelliannau pellach mewn effeithlonrwydd trosglwyddiadau, ac mae wedi datblygu'r cyfleusterau trosglwyddiad ymhellach trwy wefan y Cyngor.

- Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i foderneiddio ei brosesau caffael ac mae ganddo gysylltiadau cryf efo Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ei Dîm Gwerth Cymru, a chyrff sector cyhoeddus cyfagos. Mae'r Awdurdod yn aelod o'r Fenter Cyd Gaffael sy'n gweithredu ar ran chwe Awdurdod Gogledd Cymru, sefydlwyd yr uned hon i ddarparu Tîm Caffael Rhanbarthol i sbarduno a chynyddu arbedion caffael trwy gaffael ar y cyd ddetholiad o nwyddau a gwasanaethau.

- Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau fod gwasanaethau yn cael ei darparu gan unigolion gyda'r gallu a sgiliau i alluogi gwelliant parhaus. Cafodd Conwy wobr Buddsoddwyr Mewn Pobl ar gyfer yr Awdurdod cyfan ym mis Medi 2008, ac fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad asesiad, mae wedi ymrwymo i ddatblygu a hyfforddi ei weithlu.

- Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn bositif i Raglen Cymru ar gyfer gwella o safbwynt cyflawni, mesur ac arddangos enillion effeithlonrwydd ac i ddatblygu ei brosesau ymhellach i fanteisio ar y sylwadau positif a wnaed yn y Llythyr Blynyddol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ym mis Tachwedd 2008.

- Mae gan Wasanaethau Peirianneg a Dylunio Conwy (AMP) Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol mewn grym ar gyfer y rhan fwyaf o asedau gweithredol ac ati yng Nghonwy ac roedd AMP's ar gyfer Priffyrdd ar sail gwasanaeth wedi ei gwblhau yn sylweddol yn ystod 2008/2009.

**3.6 Rheolaeth Ariannol yr Awdurdod ac Adrodd ar Reolaeth Ariannol.**

- Dynododd yr Awdurdod y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn Brif Swyddog â Chyfrifoldeb Ariannol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- Mae rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cael ei chynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol sydd wedi eu nodi yn y Cyfansoddiad.

- Mae trefnau cadarn ar waith ar gyfer rholi ariannol yr Awdurdod ac adrodd ar wybodaeth am reolaeth ariannol, maent wedi eu cynnwys bellach yn y Fframwaith Cynllunio Busnes. Mae gan yr Awdurdod set o Egwyddorion Ariannol Sylfaenol i ategu ei Strategaeth Ariannol dymor canolig, ac maent yn datblygu rhagolygon cyllideb tu hwnt i'r flwyddyn ariannol sydd i ddod.

- Mae'r Awdurdod yn defnyddio cynllun cyllidebau wedi ei dirprwyo gyda chymorth unedau cyllid canolog ac adrannol. Maent yn seiliedig ar brotocolau proffesiynol sy'n pennu cyfrifoldebau a threfnau adrodd ar gyfer Cyfrifwyr y gwasanaeth.

- Mae adroddiadau monitro cyllideb, sy'n nodi rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfan, yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a'r Grŵp Gweithredol bob mis, a Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu bob chwarter. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi rhesymau dros amrywiadau ac unrhyw gamau gweithredu a gynigir i gywiro hynny. Darperir adroddiadau monitro manwl bob mis ar gyfer rheolwyr gwasanaethau a Phenaethiaid Gwasanaethau i gynorthwyo deiliaid cyllidebau i gyflawni eu cyfrifoldebau ariannol.

- Sefydlwyd nifer o Fyrddau Prosiect ar gyfer prosiectau penodol i fonitro datblygiad ac amcangyfrifon gwariant ar brosiectau strategol allweddol.

- Ymgymerir â Rheolaeth Trysorlys yn unol â Strategaeth a Cynllun Rheoli Trysorlys Blynyddol, a chymrir benthyg arian yn unol â'r Cod Darbodus. Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn rhagweithiol i'r Cod Darbodus, ac adroddir arddangosyddion darbodus i Aelodau. Mae'r Awdurdod wedi datblygu polisi sy'n nodi dan ba amodau y gellir benthyca yn ddarbodus.

- Mae'r Awdurdod yn denu nifer fawr o grantiau i gyllido prosiectau a chynlluniau. Mae rhai grantiau wedi eu hen sefydlu ac mae eraill yn fwy diweddar ac yn adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Awdurdod yn wyliadwrus o faterion cynaladwyedd sy'n codi yn sgil yr holl gefnogaeth grantiau. O ganlyniad datblygwyd protocol grantiau i sicrhau bod yr Awdurdod yn mabwysiadu ymagwedd gyson ar gyfer pob grant, gyda phwyslais yn benodol ar y wneud ceisiadau a derbyn ffynonellau arian newydd.

**3.7 Rheoli Perfformiad yr Awdurdod ac Adrodd ar Reoli Perfformiad.**

- Mae gan yr Awdurdod Dîm Gwella a Datblygu Corfforaethol (CIDT) sy'n ymgymryd ag ystod o ddyletswyddau sydd wedi eu hanelu at gefnogi'r rhaglen wella o fewn Conwy. Mae'r Tîm hefyd yn cefnogi adrodd yn ôl ar berfformiad yn gyson ar draws yr holl wasanaethau. Caiff y Tîm ei gyfarwyddo gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwella a Datblygu.

- Sefydlwyd Uned Wybodaeth ac Ymchwil Corfforaethol newydd o fewn y CIDT i ddarparu agwedd ragweithiol tuag at ddadansoddi a dehongli perfformiad a data demograffig er mwyn cyfarwyddo gwell penderfyniadau.

- Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol yn ddogfen strategol sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd rydym yn arfer ein swyddogaethau.

- Mae'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn monitro perfformiad gwasanaethau drwy adolygu data mesur perfformiad gan gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad a Chytundebau Polisi.

- Caiff targedau a mesuryddion perfformiad statudol a lleol eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu bob chwarter.

- Cynhaliwyd Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth dair gwaith yn ystod 2008/2009 ar draws yr Awdurdod.

- Yn ystod 2008/2009 cynhaliodd Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) archwiliad mawr o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 a Deddf Plant 2004. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod mis Tachwedd 2008 a daeth i'r casgliad bod perfformiad a rhagolygon Conwy ar gyfer gwell perfformiad yn dda iawn. Cafodd y Gwasanaeth Addysg sgôr uchel yn y meysydd rheolaeth strategol, cefnogaeth ar gyfer gwella ysgolion, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles,

gwella anghenion dysgu a gwasanaethau cefnogi. Roedd y sgôr isaf o fewn yr asesiad yn ymwneud â mynediad a threfniadau ysgolion lle daeth yr asesiad yn y maes hwn i'r casgliad fod 'y nodweddion da yn gorbwyso'r nodweddion drwg'.

- Ar yr un adeg cynhaliodd Estyn arolwg o ansawdd ein Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid. Roedd yr arolwg hwn yn canolbwyntio yn drwm ar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Unwaith eto daeth yr arolwg â chanlyniadau rhagorol ar gyfer Conwy a daethpwyd i'r casgliad y darparwyd y gwasanaeth lle'r oedd nodweddion da yn amlwg gyda dim nodweddion drwg pwysig.

- Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Rhwydwaith Perfformiad a Pholisi Mewnol fel bod swyddogion busnes a pherfformiad mewn gwahanol wasanaethau yn gallu rhannu arferion nodedig.

- Rhoddir adroddiadau ac adolygiadau bob chwe mis o'n cynnydd a gwelliannau a wnaed mewn ymateb i argymhellion gan archwilwyr allanol i'r Pwyllgor Craffu.

- Yn ystod 2008/2009 cynhaliwyd nifer o Adolygiadau Perfformiad Corfforaethol i helpu canolbwyntio gwasanaethau ar ei rôl yn darparu prif amcanion yr Awdurdod. Seiliwyd yr Adolygiadau ar themâu allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a nod y broses yw unioni blaenoriaethu a darpariaeth gwasanaethau i adnabod a rheoli risg a darparu gwell gwybodaeth wrth gynllunio a gosod blaenoriaethau yn y dyfodol.

- Yn ystod 2008/2009 sefydlwyd Grŵp Gwella ac Archwilio rhwng y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol a'r Uned Archwilio Mewnol. Prif bwrpas y Grŵp yw cydlynu gwaith adolygu sydd yn gysylltiedig â pherfformiad, cydymffurfio a gwella.

## 4. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

- Cynhaliodd CBS Conwy adolygiad Asesiad a Gwella Corfforaethol cynhwysol a chynhwysfawr yn ystod 2005/2006. Roedd yr adolygiad yn dilyn adroddiad siomedig gan SAC oedd wedi argymell cynnal Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol dan Adran 10. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Ebrill 2005 a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Awdurdod a'i dderbyn ganddo ym mis Tachwedd 2005.

- Cynhaliwyd archwiliad ar Gonwy gan SAC yn ystod 2006/2007 i benderfynu a oedd y camau gweithredu a nodwyd yn y prosiect CAI yn cynorthwyo Conwy i wireddu ei photensial i wella'n barhaus a thrwy hynny i ganiatáu'r Cyngor i fod yn fwy effeithiol. Casgliad yr Archwiliad oedd bod y "Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd bositif, ac adeiladol ar draws yr Awdurdod a gyda mwy o berffeithio ac arweiniad mwy effeithiol ac atebol byddai'n cymell gwelliant parhaus mewn gwasanaethau".

- Cynhaliwyd archwiliad dilynol pellach ym mis Tachwedd 2007 i benderfynu a oedd rhaglen wella'r Awdurdod yn effeithiol. Casgliad SAC oedd bod "rhaglen wella'r Cyngor yn broses effeithiol o sefydlu a rheoli newid a fydd gyda mwy o berffeithio yn cyfrannu at welliant parhaus i wasanaethau".

- Roedd y Llythyr Blynyddol diweddar a luniwyd ym mis Tachwedd 2008 yn nodi bod "Cynllun Gwella'r Cyngor wedi cael ei ddarparu'n briodol ac yn cynrychioli darlun cytbwys o berfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf".

- Cyflwynodd y Cyngor y prosiect CAI i'w ystyried ar gyfer gwobr yn y categori 'Ein Hawdurdod' trwy'r broses Rhagoriaeth Cymru. Cafodd Conwy deilyngdod oddi wrth y panel beirniadu o ran trawsnewid ein sefydliad ym mis Mawrth 2009.

- Roedd yr asesiad corfforaethol mewnol yn canolbwyntio ar agweddau llywodraethu a oedd wedi eu cynnwys mewn asesiad allanol, ac yn rhoi her gadarn i'n meysydd llywodraethu allweddol ar gyfer yr Awdurdod. I raddau helaeth, mae canlyniad y prosiect CAI yn parhau i roi gwybodaeth i'r SIC o safbwynt effeithlonrwydd awyrgylch rheolaeth fewnol y sefydliad.

- Yn ogystal, mae adolygiadau parhaus o effeithlonrwydd y Cyngor yn derbyn gwybodaeth o'r gwaith Archwilio Mewnol ac mae'r swyddogion yn yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheoli mewnol a hefyd gan sylwadau a wnaed gan ein harchwilwyr allanol ac asiantaethau ac arolygiaethau adolygu eraill.

- Comisiynwyd nifer fawr o brosiectau CAI o fewn strwythur rheoli prosiect i fynd i'r afael â'r nifer o gamau gweithredu allweddol a ddaeth yn sgil adroddiad gwreiddiol CAI. Amlygodd yr Adroddiad naw thema allweddol ac maent yn cael eu hadolygu rŵan fel rhan o brosiect ar draws yr Awdurdod sydd wedi anelu at hunan asesiadau a chreu manteision tymor byr, canolig a hir i'r Awdurdod ymhob agwedd o lywodraethu corfforaethol, a mynd i'r afael â nifer o agweddau rheolaeth fewnol a oedd wedi eu cynnwys yn SIC.

- Cafwyd adolygiad trylwyr o Gyfansoddiad yr Awdurdod yn ystod 2006/2007. Mae'r Cyfansoddiad diwygiedig yn diwallu anghenion niweidiol yr Awdurdod ac mae'r cynlluniau dirprwyo diwygiedig yn sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y lefel priodol yn yr Awdurdod. Diwygiwyd y Rheolau Sefydlog Contractau a'r Rheolau Ariannol yn ystod 2007/2008 ac maent rŵan yn adlewyrchu newidiadau yn arferion gwaith y Cyngor a'r amgylchedd allanol gan eu caniatáu i alluogi gwasanaethau mwy. Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion statudol a'r amgylchedd waith newidiol.

- Er ei bod yn amlwg fod y prif elfennau yn Cod Lleol ar Lywodraethu Corfforaethol (yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE) wedi eu creu, nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r fframwaith dewisol a'i rhoi ar waith. Byddai camau i fabwysiadu'r fframwaith i ategu'r gwaith o lunio'r datganiad ar reolaeth fewnol ac i hybu ymwybyddiaeth mewn modd priodol a cheisio cael sicrwydd ffurfiol gan swyddogion allweddol yn gymorth i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol yn yr Awdurdod. Gyda golwg ar hynny, mae'r Awdurdod yn ystyriol hefyd o'r angen i gyflwyno prosesau gwell i lunio datganiad llywodraethu yn y dyfodol, a bydd yn rhaid ystyried creu cysylltiad agos rhwng ei Adolygiad Perfformiad ac Iechyd Corfforaethol.

- Mae'r swyddogaeth Graffu oedd wedi ei hen sefydlu wedi ei ddiweddaru ar sail profiad. Mae gan Pwyllgor Craffu rhaglenni gwaith i'r dyfodol i ganolbwyntio eu gwaith drwy gydol y flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod hefyd Brif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu sydd yn goruchwylio a chyd-drefnu gwaith y Pwyllgorau Craffu eraill. Er bod tystiolaeth fod y swyddogaeth Graffu wedi gwella mewn rhai agweddau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r her i sicrhau fod y swyddogaeth Graffu yn gweithio'n fwy effeithiol ac er lles yr Awdurdod yn parhau.

- Mae'r Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad parhaus o holl faterion cyfreithiol a moesegol, ac mae'n cael copïau o'r holl raglenni, cofnodion, adroddiadau a phapurau cysylltiedig, ac yn gwneud sylwadau neu gymryd camau priodol os oes angen.

- Mae gan y Pwyllgor Safonau gyfrifoldeb dros safonau ac uniondeb, a bydd yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Monitro.

- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal trosolwg o weithgareddau swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor. Rhoddir copïau o'r holl adroddiadau a luniwyd gan staff Archwilio Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG. Maent yn cymeradwyo cynlluniau blynyddol ar gyfer pob un, ac yn cael adroddiadau datblygiad rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau

Archwilio a Chaffael wedyn yn cyflwyno Datganiad Sicrwydd Blynyddol ar Archwilio Mewnol iddynt. Mae'r archwilwyr allanol yn cyflwyno Adroddiad Archwilio Cyfrifon Ariannol i'r Rhai sydd â Gofal Llywodraethu, a Llythyr Blynyddol.

- Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn wasanaeth mewnol gyda staff wedi eu cyflogi yn uniongyrchol, sy'n darparu adolygiad parhaus yn unol ag ymrwymiadau'r Awdurdod dan y Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol fewn Llywodraeth Leol yn y DU. Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Diwygiedig i rym ar 1 Ebrill 2005 mewn cysylltiad â holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gorchymyn pob Awdurdod i gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol sy'n cynnwys Datganiad ar Reolaeth Fewnol wedi ei baratoi yn unol ag arferion priodol i gyfrifon blynyddol.

- Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Ddatganiad Sicrwydd 2008/2009 ym mis Mai 2009, roedd hyn yn cynnwys sicrwydd ar Reoli Mewnol Llywodraethu Corfforaethol, a Rheoli Risg. Roedd barn yr Archwilwyr Mewnol yn gallu dod i gasgliad rhesymol am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009, bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy brosesau rheolaeth fewnol rheoli risg a llywodraethu corfforaethol digonol i gyflawni amcanion y sefydliad. Roedd y farn hefyd yn dod i'r casgliad fod gwelliannau yn amlwg yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â rheoli risg o fewn yr Awdurdod.

- Mae archwilwyr allanol y Cyngor (KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru) yn adolygu gweithgareddau'r Cyngor ac archwilio'r cyfrifon blynyddol. Rhoddir gwybod i'r Aelodau a'r Rheolwyr am gasgliadau'r materion o bwys yn eu prif adroddiadau.

- Mae Rheoli Risg o fewn yr Awdurdod wedi gwella ymhellach yn ystod 2008/2009. Roedd y Strategaeth Rheoli Risg mewn grym drwy gydol 2008/2009 yn dilyn ei gymeradwyo ym mis Hydref 2005. Cynhaliodd KPMG archwiliad o drefniadau rheoli risg Conwy yn ystod 2008/2009 a daethpwyd i'r casgliad fod "yna arwyddion addawol fod y prosesau rheoli risg yn gwella, ond bod yna gyfleodd i wella ymhellach".

- Roedd risg yn nodwedd sylfaenol o ystyriaethau pennu cyllideb ar gyfer y Cyngor yn ystod 2008/2009 pan bennwyd y gyllideb a Treth y Cyngor ar gyfer 2009/2010.

- Mae gan yr Awdurdod hanes yn ddiweddar o reoli ei gynlluniau gwariant o fewn y gyllideb a gymeradwywyd, mae Llythyrau Blynyddol olynol a gynhyrchwyd gan SAC ac yn ddiweddarach SAC a KPMG yn datgan bod yr amgylchedd rheolaeth cyffredinol yn gadarn ar y cyfan a bod systemau rheolaeth ariannol fewnol a threfniadau rheolaeth ariannol ar waith. Daeth archwiliad diweddar gan KPMG o Drefniadau Rheolaeth Ariannol Conwy a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008, i'r casgliad bod "Conwy wedi sefydlu trefniadau rheolaeth ariannol sy'n helpu cyflawni amcanion strategol a gweithredol yr Awdurdod".

- Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Fframwaith Cynllunio Busnes a bydd yn monitro yn rheolaidd ac yn adolygu datblygiad ddwywaith y flwyddyn yn ôl canlyniadau a gytunwyd sydd wedi eu nodi yng Nghynlluniau Gweithredol Blynyddol y gwasanaethau. Mae ein Cynllun Gwella Blynyddol hefyd yn cael ei fonitro ar ganol y flwyddyn a rhoddir adroddiad ar hynny i'r Grŵp Gweithredol, Uwch Dim Rheoli, y Cabinet a'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cynhelir gweithdai cynllunio strategol gyda'r Cabinet ac uwch swyddogion i ganfod a chytuno ar gyflawniadau strategol allweddol a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol. Drwy fonitro rheolaidd gallwn adolygu ein datblygiad yn ôl targedau a bennwyd dan y mesuryddion perfformiad lleol a statudol. Rydym yn adrodd ar ddatblygiad a gweithgareddau bwriedig er mwyn gwella ein Cynllun Gwella blynyddol.

- Cynhelir Rheoli Perfformiad yn yr Awdurdod, ac mae wedi datblygu yn ystod 2008/2009. Mae ymagwedd fwy cyson yn yr Awdurdod ac mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i roi'r ymagwedd hon ar waith yn ystod y flwyddyn.

## 5. MATERION O BWYS YM MAES RHEOLAETH FEWNOL

- Mae'r adolygiad effeithiolrwydd a amlinellwyd yn adran 4 uchod yn dangos fod yr amgylchedd rheolaeth a ddisgrifiwyd yn adran 3 yn effeithiol. Ceir tystiolaeth bellach i ategu'r casgliad hwn oddi wrth:

  - Datganiad Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynyddol 2008/2009,
  - Y Llythyr Blynyddol diweddaraf i'r Cyngor (Tachwedd 2008),
  - A'r Archwiliad Barn ddiweddaraf i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu (Medi 2008).

- Nid oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol sylweddol wedi eu nodi, ac ar sail y sicrwydd amrywiol, credir fod trefniadau llywodraeth corfforaethol boddhaol mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol..
- Fodd bynnag, cydnabyddir gellir gwneud gwelliannau i'r awyrgylch rheolaeth fewnol yng Nghonwy.

- Er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus i'r awyrgylch rheoli credir mai'r camau gweithredu a ganlyn yw'r blaenoriaethau sy'n pwyso mwyaf ar yr Awdurdod:

  - Sefydlu set amlwg o oddefiadau a sefydlu archwaeth risg ar gyfer yr Awdurdod a fyddai'n caniatáu Cofrestr Risg Corfforaethol a Thempled Asesu Risg mwy cyson ac ystyrlon i gael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau llif gwaith.
  - Darparu sesiynau hyfforddiant risg i swyddogion priodol ac Aelodau ar draws yr Awdurdod.
  - Cwblhau cynlluniau parhad busnes a sefydlu trefniadau i ganiatáu'r Awdurdod i ymateb yn rhagweithiol i'r Ddeddf Argyfyngau Sifil.
  - Gweithredu a monitro'r trefniadau byrddau gwella diwygiedig a sicrhau eu bod yn dod yn fwy strategol ac yn parhau i ychwanegu gwerth i'r sefydliad.
  - Parhau i ddatblygu'r broses adolygu i gyfarwyddo'r Awdurdod o gynnydd mewn perthynas â'r naw thema allweddol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
  - Ymgymryd ag arolwg o swyddogaeth Graffu'r Awdurdod yn dilyn gweithredu'r trefniadau newydd ym mis Mai 2008.
  - Ymgorffori'r Fframwaith Rheoli Perfformiad o gwmpas themâu'r Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod rheoli perfformiad cyson a gwell yn gweithredu trwy'r Awdurdod.
  - Datblygu prosesau a threfniadau i sicrhau y cynhyrchir Datganiad Rheoli ar gyfer 2009/2010, ac i sicrhau fod y trefniadau yn gweithredu trwy waith yr Awdurdod o ddydd i ddydd i ddarparu rheolaeth effeithiol.
  - Datblygu Strategaeth Ariannol fwy manwl sy'n edrych ymlaen ac yn amlygu materion ariannol tu hwnt i'r flwyddyn ariannol sydd ar ddod.

- Dadansoddi gwariant ar gontractau mawr yr Awdurdod i geisio defnyddio adnoddau'n well.

Mae cynlluniau gweithredu manwl wedi eu paratoi i ymdrin â phob un o'r materion hyn, ac maent yn rhan o'r dull rheoli prosiectau a weithredir yn yr Awdurdod. Bydd datblygiad yn cael ei fonitro'n fewnol ac allanol yn ystod 2009/2010.

**Llofnod**

B Davies

**Prif Weithredwr** **Dyddiad** **28/09/2009**

D O Roberts

**Arweinydd y Cyngor** **Dyddiad** **28/09/2009**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Y mae'n ofynnol bod y Cyngor yn:

- Trefnu bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Bwrdeistref Siriol Conwy, y swyddog hwnnw yw'r **Swyddog Adain 151.**

- Rheoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.

- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio gan y Cyngor.

**TYSTYSGRIF YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2009.

LLOFNOD: ....................................................................

Cynghorydd A Hinchliff
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

DYDDIEDIG: **28/09/2009**

**CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151**

Fel y Prif Swyddog Cyllid, mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor sydd, yn ôl gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain ("Y Cod"), yn gorfod cyflwyno disgrifiad teg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu, ac o incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151: -

- wedi dewis polisïau addas ar gyfer cadw cyfrifon ac wedi eu defnyddio mewn modd cyson;
- wedi gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhai rhesymol a gofalus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer;
- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sydd yn gyfoes;
- wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw ymddygiad afreolaidd arall.

**TYSTYSGRIF SWYDDOG ADRAN 151**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2009, a’i incwm a’i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNOD: ..............................................................

A H Kirkham
Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

DYDDIEDIG: **28/09/2009**

# ADRODDIAD ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Rydym wedi Archwilio datganiadau cyfrifo a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor, Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, Mantolen, Datganiad Llif Ariannol, Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw Tai a Datganiad o Falans Symudiadau Cyfrif Refeniw Tai. Lluniwyd y datganiadau cyfrifo yn unol â pholisïau cyfrifo a nodwyd yn y Datganiad Polisïau Cyfrifo.

Lluniwyd yr adroddiad hwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unig, yn unol â Rhan 2 Deddf of the Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall, fel y nodwyd ym mharagraff 46 *Datganiad cyfrifoldebau'r archwilwyr a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i arolygwyr, a'r cyrff maent yn eu harchwilio a'u harolygu (2008)* a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cynhaliwyd ein gwaith ymchwil fel ein bod yn gallu nodi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel corff, y materion hynny sy'n ofynnol i ni nodi iddynt mewn adroddiad archwilwyr a heb fod i unrhyw bwrpas arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn honni unrhyw gyfrifoldeb i neb arall ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac am ein barn.

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol a'r archwiliwr annibynnol:**

Nodwyd cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am lunio'r Datganiad Cyfrifon yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol a rheolaethol perthnasol a Chod Ymarfer Cyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2008 - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, yn y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon.

Ein cyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheolaethol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Rydym yn rhoi gwybod i chi am ein barn a yw'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheolaethol a Chod Ymarfer Cyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2008 - y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Rydym yn adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos y cydymffurfir â chanllawiau CIPFA Datganiad ar Reoliad Mewnol Llywodraeth Leol: Cyflawni Gofyniadau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003 a gyhoeddwyd gan CIFPA yn Ebrill 2004. Rydym yn rhoi gwybod os nad yw'n cydymffurfio ag arferion priodol a nodir gan CIPFA neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rydym yn gwybod amdani ar ôl archwilio'r cyfrifon. Nid yw'n ofynnol i ni, ac nid ydym wedi ystyried, a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn trafod pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol ychwaith i ni lunio barn ar effeithiolrwydd trefnau llywodraethu corfforaethol y corff Llywodraeth Leol na'i drefnau risg a rheolaeth.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig a gafodd eu harchwilio. Mae'r wybodaeth arall hon ond yn cynnwys Rhagair Esboniadol a Chyfrifon Cronfa'r Ddegwm. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n adroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Arferion Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau

Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, tystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth baratoi'r datganiadau cyfrifyddu, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r corff Llywodraeth Leol, wedi'u cymhwyso'n gyson ac wedi'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen yn ein barn ni, i roi digon o dystiolaeth i ni roi sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig gamddatganiad o bwys, boed hynny drwy dwyll neu fath arall o afreoleidd-dra neu wall. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig.

**Barn am ddatganiadau cyfrifo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiedig yn cyflwyno'n deg ac yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolaethol perthnasol a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2008, sefyllfa Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2009 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben pryd hynny.

**Casgliadau am y trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol**

Mae ein casgliadau ynglŷn â oedd trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n gynnil, yn effeithlon ac yn effeithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, i'w cael mewn adroddiad ar wahân yn Llythyr Blynyddol y Rheolwr Perthnasau.

**Tystysgrif Cwblhau**

Rydym yn tystio ein bod wedi cwblhau archwilio cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â gofynion Deddf Archwilio (Cymru) Audit 2004 a Chod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

KPMG LLP — 28 Medi 2009

Archwilydd Penodedig
Cyfrifwyr Siartredig
Marlborough House
Fitzalan Court
Fitzalan Road
Caerdydd
CF24 0TE

# DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISÏAU CADW CYFRIFON

1. **Cyffredinol**

Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer a Chadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr 2008 (SORP2008), fel y diwygiwyd ef gan y Bwletinau Diweddaru, gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA), a'r nodiadau arweiniad a gafodd eu cyhoeddi gan CIPFA ar gyfer defnyddio Safonau Cadw Cyfrifon (SSAP a FRS).

Paratowyd y Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP) a gyhoeddwyd gan CIPFA, gan ymgorffori'r cysyniad o adrodd ar gyfanswm cost gwasanaethau.

2. **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau dan FRS 12, lle cynhaliwyd digwyddiad a oedd yn ymrwymo'r Cyngor ac a fyddai angen ei setlo trwy drosglwyddo budd economaidd, ond lle bo amser y trosglwyddiad hwnnw'n ansicr.

3. **Cronfeydd wrth Gefn**

Ystyrir bod symiau a neilltuwyd ar gyfer amcanion heblaw darpariaethau, fel cronfeydd wrth gefn. Maent naill ai'n arian y cynlluniwyd i'w neilltuo ar gyfer gofynion gwario tymor byr na chawsant eu rhagweld, arian i gynorthwyo gyda rheoli llif ariannol neu adnoddau cronedig na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo. Dangosir trosglwyddiadau iddynt ac ohonynt fel neilltuadau yn y Datganiad Symudiadau Balans y Gronfa Gyffredinol.

4. **Asedau Sefydlog**

4.1 Mesur

Mae Asedau Sefydlog y Cyngor wedi cael eu prisio ar seiliau sydd yn briodol i'w categorïau, ac sydd yn gyson a'r Datganiad o Egwyddorion Prisio Asedau a'r Nodiadau Arweiniad sydd wedi eu cyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig.

Mae asedau gweithredol yn cael eu dangos yn ôl ochr isaf y gost amnewid gyfredol net a'r gwerth sylweddoladwy net.

Mae'r Cerbydau a'r Offer yn cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer y gost gyfredol.

Mae'r isadeiledd a'r asedau cymunedol yn cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol.

Mae tir ac adeiladau anweithredol ac asedau anweithredol eraill yn cael eu dangos yn ôl ochr isaf y gost amnewid gyfredol net a'r gwerth sylweddoladwy.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladau'n cael eu dangos yn ôl eu cost hanesyddol nes byddant wedi eu cwblhau; wedi hynny, byddant yn cael eu prisio yn unol â'r polisïau cyfrifyddu ac yn cael eu trosglwyddo i'r categori ased priodol.

Fodd bynnag, oherwydd eu pwysigrwydd i'r cyfrifon, mae stoc Tai cyfan y Cyngor wedi cael ei phrisio, ar sail y defnydd presennol ohoni, yn seiliedig ar Werth Defnydd Presennol ar gyfer Tai Cymdeithasol. Gan nad oes canllaw gan Gynulliad Cymru, seiliwyd y prisiad asedau CRT ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Roedd y ffactor gostyngiad a ddefnyddiwyd yn 47%. Mae’r gostyngiad canran yn adlewyrchu cymhareb rhenti’r Awdurdod Lleol a geir yn erbyn y rheiny yn y farchnad agored ac mae’r gwahaniaeth o ganlyniad i hyn yn dangos y byddai’r farchnad yn berthnasol ym mhob sector.

Bwriedir cynnal rhaglen Gwerthuso Asedau er mwyn sicrhau bod yr holl asedau sefydlog yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd ac ail-brisiwyd asedau yn ystod rhan olaf blwyddyn ariannol 2004/05 gan Adran Gwasanaethau Eiddo’r Cyngor gyda’r Gwerthusiad yn dod i rym ar 31 Mawrth 2005. Mae rhaglen yn bodoli i adolygu niwed blynyddol i werth yr asedau sydd gan y Cyngor.

4.2 Cael Gwared ag Asedau

Mae'r asedau a werthwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu hailbrisio wrth iddynt gael eu gwerthu, y pris gwerthu yw'r amcangyfrif gorau o bris y farchnad ar y dyddiad hwnnw. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis gwerthu'r tir ar gyfer Tai Cymdeithasol, gall yr ased gael ei ailbrisio ar ffigwr uwch na'r pris gwerthu, gan wneud colled ar y gwerthiant.

Yn yr un modd, bydd enillion ar werthiannau ond yn digwydd mewn amgylchiadau prin pan fydd ased yn cael ei werthu am fwy na'i werth, e.e. pan fydd rhywun gyda diddordeb arbennig yn fodlon talu mwy na gwerth y farchnad.

Nid yw asedau a ddaeth i feddiant y Cyngor dan drefniadau Prydles Weithredol yn cael eu cynnwys yn y fantolen (gan nad y Cyngor sy’n berchen arnynt), ond rhoddir manylion amdanynt yn y Nodiadau. Mae’r rhenti blynyddol am brydlesau yn cael ei dalu allan o’r cyfrifon refeniw gwasanaeth.

5. **Codi Tâl ar Refeniw am Asedau Sefydlog**

Yn unol â’r arweiniad sy’n cael ei roi gan CIPFA, mae’r Cyngor yn cadw Cofrestr Asedau, ac yn codi tâl ar wasanaethau am gael defnyddio’r asedau sydd wedi eu cynnwys ynddi. Mae'r tâl cyfalaf yn cynnwys dibrisiant, a gynhwysir isod.

6. **Dibrisiant**

Mae asedau ar wahân i Dir yn lleihau mewn gwerth dros oes eu gwasanaeth. Mae dibrisiant yn cael ei gyfrifo ar delerau “dibrisiant llinol”, gan ddefnyddio’r amcangyfrifon canlynol o ran oes:

| | **Mlynedd** |
|---|---|
| Tai Cyngor | 30 |
| Adeiladau | 10 - 100 |
| Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar | 2 - 10 |
| Asedau Isadeiledd | 2 - 40 |

7. **Asedau Anniriaethol**

Mae Asedau Sefydlog Anniriaethol yn daliadau o natur Cyfalaf nad ydynt yn arwain at ased diriaethol. Enghreifftiau o hyn yw Trwyddedau Meddalwedd, Nodau Masnach a Phatentau. Roedd Asedau Anniriaethol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09 yn cynnwys gwariant ar System Adnoddau Dynol/Cyflogau, datblygu'r wefan a system reoli integredig. Caiff asedau anniriaethol eu codi o refeniw dros oes economaidd yr ased. Oes Asedau Anniriaethol yw uchafswm o 10 mlynedd.

8. **Derbyniadau Cyfalaf**

Mae incwm o gael gwared ar asedau sefydlog yn cael ei gredydu i'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf y gellir ei ddefnyddio, ac fe'i cyfrifir fel croniadau. Dim ond ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf newydd (neu i'w neilltuo i leihau gofynion benthyca) gellir defnyddio derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio. Mae symiau sy'n uwch na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae derbyniadau'n cael eu priodoli i'r Gronfa Wrth Gefn o'r Datganiad Ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor.

Yn 2004/05 daeth neilltuo 75% o werthiannau Hawl i Brynu Tai yn ôl doethineb yr Awdurdod Lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi dewis peidio neilltuo Derbyniadau Cyfalaf Hawl i Brynu Tai.

9. **Grantiau'r Llywodraeth**

Mae Grantiau Refeniw'n cael eu cofnodi fel incwm yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, i gyfateb i wariant perthnasol. Mae Grantiau gan y Llywodraeth, a Chyfraniadau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog, yn cael eu rhoi mewn Cyfrif Gohiriedig ar gyfer Grantiau gan y Llywodraeth, ac yn cael eu rhyddhau i Gyfrif Refeniw Rheoli Asedau, yn unol â'r dibrisiant a godir, neu yn ystod y flwyddyn y cânt eu gwario am ddim gwerth ychwanegol i'r gwariant cyfalaf.

10. **Prydlesau Gweithredu**

Mae gan yr Awdurdod nifer o Brydlesau Gweithredu ac mae'r rhain yn cael eu dyrannu i refeniw yn ystod y flwyddyn y maent yn ddyledus.

11. **Cynllun Ariannu Preifat (PFI)**

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldeb am sicrhau fod yr asedau sefydlog sydd eu hangen ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr PFI. Mae taliadau a wneir gan y cyngor dan gontract fel arfer yn cael eu cymryd o refeniw i adlewyrchu gwerth y gwasanaethau a dderbynnir ym mhob blwyddyn ariannol.

**Rhagdaliadau**

Mae rhagdaliad am wasanaethau a dderbynnir dan gontract yn codi pan gaiff asedau eu trosglwyddo i reolaeth y contractwr PFI, ar ddechrau'r cynllun fel arfer. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr ased ar y dyddiad trosglwyddo ac unrhyw werth dros ben y gallai'r awdurdod ei dderbyn ar ddiwedd y contract yn cael ei ystyried yn gyfraniad a wneir i'r contractwr, ac mae'r rhagdaliad yn cyfrifo amdano. Mae'r rhagdaliad yn cael ei gynnwys (codi tâl) yn y cyfri refeniw unigol dros oes y contract i ddangos gwerth llawn y gwasanaethau a dderbynnir bob blwyddyn. Fodd bynnag, gan fod y taliad yn un tybiannol, mae'n cael ei gynnwys hefyd yn y Datganiad Symud ar Falans y Gronfa Gyffredinol i gael gwared ar unrhyw effaith ar dreth y cyngor neu renti.

Cyfrifir am y taliadau gwaddol, a wneir ar ddechrau'r contract, sy'n golygu bod y taliadau unedol yn is dros oes y contract, drwy sefydlu'r cyfraniad (gwaddol) fel rhagdaliad am wasanaethau a gaiff eu derbyn a chynnwys y balans yn y refeniw dros oes y contract wrth i wasanaethau gael eu derbyn i adlewyrchu eu gwir gost.

**Llog Refersiynol**

Mae'r cyngor wedi trosglwyddo rheolaeth dros dir ac adeiladau penodol i'r contractwr PFI, ond gallai'r eiddo gael ei drosglwyddo yn ôl i reolaeth y cyngor ar ddiwedd y cynllun (llog refersiynol). Mae asesiad wedi'i gynnal ar werth net presennol yr asedau hyn ar ddiwedd y cynllun (heb eu gwella) ac mae ased llog refersiynol wedi'i osod ar Fantolen y cyngor.

**Llog Dros Ben**

Os yw asedau a gaiff eu creu neu eu gwella dan y cynllun PFI yn cael eu trosglwyddo i'r cyngor ar ddiwedd y cynllun am gost is na gwerth teg (gan gynnwys dim) (llog dros ben), caiff swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg a'r taliad a wneir ar ddiwedd y contract ei gynnwys fel dyledwr tymor hir dros oes y contract drwy leihau maint y taliad unedol a gymrir o refeniw.

**Credydau PFI**

Mae grantiau'r llywodraeth a dderbynnir ar gyfer cynlluniau PFI, uwchlaw'r lefelau gwariant presennol, yn cael eu dwyn ymlaen fel arian wrth gefn i ariannu gwariant contract yn y dyfodol.

12. **<u>Dyledwyr a Chredydwyr</u>**

Mae Cyfrifon y Cyngor yn cael eu cynnal ar sail croniadau , yn unol â'r Cod ac SSAP Rhif 2; hynny yw, mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor neu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys, pa un ai yw'r taliad neu'r derbyniad wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ai peidio.

13. **<u>Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg ac Amheus</u>**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn dynodi bod cyfran o ddyledwyr y Cyngor ar ddiwedd blwyddyn y dylid addasu eu gwerth trosglwyddo i'r swm tebygol a ellir ei adennill.

14. **<u>Stociau a Gwaith ar y Gweill</u>**

Mae Stociau a Gwaith ar y Gweill sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn cael eu prisio yn ôl eu cost hanesyddol neu eu gwerth sylweddoladwy net, pa un bynnag yw'r isaf, yn unol â darpariaethau'r Cod ac SSAP Rhif 9.

15. **<u>Dyrannu Costau Gweinyddiaeth Ganolog/Gwasanaethau Cefnogi</u>**

Mae costau'r prif Wasanaethau Cefnogaeth Canolog h.y. Cyllid, Technoleg Gwybodaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol, Personél a'r Gwasanaethau Eiddo, wedi cael eu dyrannu'n llawn i Gyfrifon yr Adrannau Gwasanaeth ac i'r Cyfrifon sy'n ymwneud â'r craidd Corfforaethol a Democrataidd, yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

Mae seiliau dosbarthu'r costau hyn yn amrywio yn ôl natur y tâl sy'n cael ei godi:

| Gwasanaethau Cefnogi | | Sail Codi'r Tâl |
|---|---|---|
| Cyllid | - Cadw Cyfrifon | Amser |
| | - Cyflogau | Papurau Cyflog a gyflwynwyd |
| | - Taliadau gan Gredydwyr | Nifer o anfonebau a dalwyd |
| | - Archwilio | Dyddiau Archwilio |
| | - Dyledwyr | Nifer yr anfonebau a gyhoeddwyd |
| | - Derbynyddion Arian Parod | Nifer y trafodion y rhoddwyd |
| | - Gweinyddu | Amser |
| | - Rheoli | Amser |
| Cyfreithiol | | Amser |
| Personél | | Amser, a'r staff a gyflogwyd |
| Technoleg Gwybodaeth | | Dyraniad, amser, a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd |
| Peirianneg a Dylunio | | Sail ffioedd (Cynlluniau Cyfalaf) ac Arwynebedd Llawr ar gyfer swyddfeydd |

16. **Costau Pensiwn**

Mae FRS 17 yn rhoi cyfrif am fuddion ymddeol fel maent yn cael eu hennill gan weithwyr, hyd yn oed pan na fyddant yn cael eu talu am flynyddoedd i ddod. Mae'r asedau neu atebolrwydd net yn ymrwymiad ar ran y cyflogwyr i gynyddu cyfraniadau i ddigolledu unrhyw ddiffyg neu ei allu i elw trwy leihau cyfraniadau.

O ganlyniad i newidiadau i'r FRS 17 yn 2008/09, mae'r gwarantau y nodwyd eu bod yn cael eu cadw fel asedau yn y cynllun pensiwn buddion yn cael eu prisio yn ôl pris y cynnig yn hytrach na phris canolig y farchnad.

17. **Buddsoddiadau**

Mae gweithrediadau Rheoli Trysorlys o ddydd i ddydd yn golygu buddsoddi yn y tymor byr unrhyw arian dros ben sydd yn nwylo'r Cyngor ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi am gyfnodau sy'n amrywio rhwng dros nos a 364 o ddyddiau. Defnyddir buddsoddiadau tymor hirach (mwy nag un flwyddyn rhwng y dechrau a'r ad-daliad) pan fo gofynion hylifedd y Cyngor yn cael eu diogelu a phan fo'r cyfle'n codi i ymgymryd â buddsoddiad o werth gyda gwarant o arian yn ôl. Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 35. Ychwanegir llog a gronnwyd at werth buddsoddiadau ar bapur ac fe'i dangosir fel rhan o asedau cyfredol neu asedau hirdymor yn dibynnu ar ddyddiad aeddfedu'r buddsoddiad

18. **Llog a enillwyd ar y balansau sy'n cael eu cadw**

Credydwyd y llog a enillwyd ar fuddsoddi tymor byr cronfeydd dros ben, fel y nodwyd uchod, i'r Cyfrif Refeniw Tai, Cyllidebau a Ddirprwywyd i Ysgolion a'r Gronfa Cynllun Ariannu Preifat (PFI) a chronfeydd llai eraill, yn seiliedig ar y balans trwy gydol y flwyddyn. Mae gweddill y llog net yn cael ei gredydu i Gronfa'r Cyngor.

19. **Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud**

Dyma daliadau sy'n gyfalaf o ran eu natur ond nid oes unrhyw ased sefydlog yn cael ei greu ganddynt. Mae pob gwariant fel hyn wedi ei roi ar gyfrif refeniw'r gwasanaeth yn y flwyddyn honno. Mae gwariant refeniw net yr Awdurdod wedi ei wrthbwyso gan grantiau a chyfraniadau sy'n credydu'r refeniw, gyda'r swm net yn cael ei wrthbwyso gan gyfraniad trwy'r Datganiad Symudiadau Cronfa'r Cyngor / Balans Cyfrif Refeniw Tai.

20. **Y Sail i'r Ddarpariaeth ar gyfer Clirio Dyledion**

Mae'r Cyngor yn cadw portffolio dyled sy'n cynnwys benthyciadau cyfradd sefydlog a newidiol dros gyfnodau amrywiol gan gymysgedd o sefydliadau cyllidol, fel y'i dadansoddwyd yn nodyn 35. Yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, mae gofyn i'r Awdurdod neilltuo Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer ad-dalu dyledion. Dangosir dadansoddiad o'r symiau perthnasol yn nodyn 9.

21. **Treth Ar Werth**

Ar wahân i TAW a godir ar gyfer prynu rhai cerbydau a lletygarwch, gall y Cyngor adennill y TAW a godir arno. Mae'r Cyfrifon, felly, wedi cael eu paratoi heb gymryd y dreth hon i ystyriaeth, ac eithrio mewn achosion lle nad oes modd ei hadfer.

22. **Ffigyrau Cymharol**

Dangosir ffigyrau cymharol, lle y bo'n briodol, yn yr holl ddatganiadau ariannol, yn unol â'r Cod.

23. **Gwariant Cyfalaf a Ddyrannwyd i Gronfa'r Cyngor a Balansau'r CRT**

Mae'r gwariant cyfalaf a ddyrannwyd i Gronfa'r Cyngor a Balansau'r CRT yn cael ei ddatgelu yn y Datganiad o Symudiad ar y Balansau perthnasol.

24. **Rhwymedigaethau Amodol**

Mae rhwymedigaeth amodol yn ymrwymiad posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol ac mae ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan un digwyddiad ansicr neu fwy yn y dyfodol nad yw dan reolaeth lwyr yr Awdurdod.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau amodol o fewn y Cyfrifon fel eitem o wariant ond cyfeirir atynt yn Nodyn 30 y Datganiad Craidd.

25. **Eitemau eithriadol**

Eitemau eithriadol yw eitemau sylweddol o ran gwariant cyffredinol yr Awdurdod na ddisgwylir iddynt gael eu hailadrodd na dod gerbron yn rheolaidd.

Mae eitemau eithriadol yn cael eu cynnwys yng nghostau'r gwasanaeth perthnasol neu'r Cyfrif Incwm a Gwariant os oes angen y graddau hynny o amlygrwydd arnynt i gyflwyno'r cyfrifon yn deg.

Cyflwynir eitem eithriadol yn Nodyn 4 y Datganiadau Craidd.

26. **Arian Tramor**

Mae'n bolisi gan y Cyngor i beidio â buddsoddi neu fenthyg unrhyw arian ac eithrio sterling.

27. **Addasiadau Blaenorol**

Addasiadau blaenorol yw'r newidiadau sylweddol hynny sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol ac sy'n codi o newidiadau i bolisïau cyfrifo neu drwy gywiro camgymeriadau sylfaenol. Nid ydynt yn cynnwys cywiriadau neu newidiadau cyfrifo arferol sy'n ailddigwydd nac amcangyfrifon cyfrifo wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

28. **Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Gall rhywbeth ddigwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu cyflwyno a gall hyn ddylanwadau ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn flaenorol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon petaent yn darparu tystiolaeth ychwanegol o amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen a'u bod yn cael effaith sylweddol ar y symiau sydd i'w cynnwys.

Gallai digwyddiadau o'r fath gael effaith sylweddol ar amcangyfrif, newid gwir ffigwr amcangyfrif yn sylweddol i adlewyrchu amhariad neu welliant yn y sefyllfa ariannol, ond pan mae'r digwyddiad gwreiddiol wedi digwydd cyn diwedd y flwyddyn yn unig a phan ystyrir fod y symiau o bwys i'r cyfrifon.

29. **Cytundebau Tymor Hir**

Mae costau cytundebau tymor hir yn cael eu dyrannu i refeniw yn ystod y flwyddyn y maent yn cael eu gwario.

30. **Rhwymedigaethau Ariannol**

Mesurir y rhwymedigaethau ariannol i ddechrau yn ôl eu gwerth teg a'u cynnal am gost eu hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol o'r cyfrif incwm a gwariant am y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm y rhwymedigaeth, wedi ei luosi gan y gwir raddfa llog ar gyfer yr offeryn. Mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prif swm sy'n weddill i'w ad-dalu, a'r llog a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yw'r swm sy'n daladwy am flwyddyn cytundeb y benthyciad.

Ychwanegir y llog cronedig i werth cynnal dyled tymor hir, ac mae'n cael ei ddangos fel rhan o rwymedigaethau tymor hir.

31. **Asedau Ariannol**

Mae dau ddosbarth o asedau ariannol:

- Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy - asedau gyda thaliadau sefydlog neu gellir eu pennu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- Asedau ar gael i'w gwerthu – asedau gyda phris y farchnad a ddyfynnwyd a/neu heb daliadau sefydlog neu gellir eu pennu.

Nid yw'r Awdurdod yn delio ag asedau sydd ar gael i'w gwerthu.

➢ **Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy**

Mesurir y rhain i ddechrau yn ôl eu gwerth teg a'u cynnal am gost eu hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant am y llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm y rhwymedigaeth, wedi ei luosi gan y gwir raddfa llog ar gyfer yr offeryn Annual credits to the income and expenditure account for interest receivable are based on the carrying amount of the asset multiplied by the effective rate of interest for the instrument. . Mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y fantolen yw'r prif swm sy'n dderbyniadwy, a'r llog a gredydwyd i'r cyfrif incwm yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yn y cytundeb benthyca.

# CYFRIF INCWM A GWARIANT

| | Nodyn | Cyfanswm y Gwariant 2008/09 £'000 | Cyfanswm yr Incwm 2008/09 £'000 | Gwariant Net 2008/09 £'000 | Gwariant Net 2007/08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | | 13,078 | (14,024) | (946) | (1,829) |
| Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol a Chynllunio | | 41,217 | (15,744) | 25,473 | 24,307 |
| Gwasanaethau Addysg | | 111,105 | (27,781) | 83,324 | 79,166 |
| Gwasanaethau Priffyrdd, Ffyrdd a Chludiant | | 22,364 | (13,476) | 8,888 | 9,415 |
| Gwasanaethau Tai | | 37,304 | (34,717) | 2,587 | 2,210 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | | 50,910 | (15,754) | 35,156 | 35,438 |
| Craidd Corfforaethol a Democrataidd | | 6,671 | (1,718) | 4,953 | 7,230 |
| Costau Canolog na ellir eu Dosbarthu | | 884 | (192) | 692 | 2,720 |
| Gweithrediadau a derfynwyd | | | | | |
| Cyfrif Refeniw Tai | | 14,737 | (6,586) | 8,151 | 4,668 |
| Exceptional Item: LSVT | 4 | 145,866 | (33,112) | 112,754 | 0 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | | **444,136** | **(163,104)** | **281,032** | **163,325** |
| Ennill/Colli gwaredu asedau sefydlog (Cronfa'r Cyngor) | | | | (66) | (165) |
| Ennill/Colli gwaredu asedau sefydlog (CRT) | | | | (696) | 0 |
| Praeseptau Awdurdodau Praeseptio ac Ardollau | 7 | | | 15,720 | 15,032 |
| Gweddill neu Ddiffyg Ymrwymiadau Masnachu neu weithrediadau eraill | 5 | 6,679 | (5,490) | 1,189 | 1,180 |
| Llog taladwy a chostau tebyg (gan gynnwys gostyngiadau a phremiymau) - Cronfa'r Cyngor | | | | 6,011 | 6,442 |
| Llog taladwy a chostau tebyg (gan gynnwys gostyngiadau a phremiymau) - CRT | | | | 854 | 1,466 |
| Gostyngiadau a phremiymau (Cronfa'r Cyngor) | | | | (2,111) | (2,434) |
| Gostyngiadau a phremiymau (CRT) | | | | (51) | (111) |
| Llog ac Incwm Buddsoddiadau - Cronfa'r Cyngor | | | | (2,111) | (2,434) |
| Llog ac Incwm Buddsoddiadau - CRT | | | | (51) | (111) |
| Arian Llog Pensiwn | 34 | | | 19,702 | 16,394 |
| Adenillion ar Asedau Pensiwn | 34 | | | (16,876) | (16,337) |
| **Gwariant Gweithredol Net** | | | | **304,708** | **184,792** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | | (111,267) | (109,713) |
| Ailddosbarthu Trethi Annomestig | 13 | | | (29,792) | (27,357) |
| Treth y Cyngor | 12 | | | (46,784) | (44,429) |
| **Cyfanswm Diffyg y flwyddyn** | | | | **116,865** | **3,293** |

# Datganiad ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor

| | 2008/09<br>£'000 | | 2007/08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg Net Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn | 116,865 | | 3,293 |
| Y swm net ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y statud ac arferion priodol anstatudol sydd i'w tynnu neu eu hychwanegu at Falans Cronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn **NODYN 1** | (116,425) | | (3,810) |
| **Diffyg/(Gweddill) Net Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | **440** | **(517)** |
| Y balans ddygwyd ymlaen - Cronfa'r Cyngor<br>- Ysgolion | (3,005)<br>(5,192) | (8,197) | (3,005)<br>(4,675) |
| Diffyg/(Gweddill) - Cronfa'r Cyngor<br>- Ysgolion | 0<br>440 | 440 | 0<br>(517) |
| Y balans ddygwyd ymlaen - Cronfa'r Cyngor<br>- Ysgolion | (3,005)<br>(4,752) | (7,757) | (3,005)<br>(5,192) |

# DATGANIAD AR GYFANSWM ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

| | | 2008/09<br><br>£'000 | 2007/08<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant<br>addaswyd yn sgil tanbrisio ased a waredwyd<br>Tanbrisio Ased** | | **116,844<br>21** | **3,248<br>45** |
| **Diffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant** | | **116,865** | **3,293** |
| (Gweddill) sy'n deillio o Ailwerthuso Asedau Sefydlog | | (335) | (1,218) |
| (Enillion) neu Golledion Actwari ar asedau'r gronfa bensiwn ac atebolrwydd | | 38,928 | (20,962) |
| (Enillion) eraill y mae angen eu cynnwys | | (6) | (16) |
| Ail ddatganiad mewn perthynas ag Offerynnau Ariannol yn dilyn cyflwyno SORP 2007 | | 0 | 727 |
| **Cyfanswm yr (enillion) neu golledion ar gyfer y flwyddyn** | | **155,452** | **(18,176)** |

# Y FANTOLEN

| | Nodyn | 31 Mawrth 2009 £' 000 | | 31 Mawrth 2008 £' 000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Diriaethol** | 19 | | | | |
| **Asedau Gweithredol** | | | | | |
| Anheddau'r Cyngor | | 0 | | 144,129 | |
| Tir ac Adeiladau Eraill | | 184,470 | | 178,229 | |
| Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar | | 8,367 | | 6,864 | |
| Asedau Isadeiledd | | 48,364 | | 36,654 | |
| Asedau Cymunedol | | 3,328 | | 2,918 | |
| | | **244,529** | | **368,794** | |
| **Asedau Anweithredol** | | | | | |
| Asedau Dros Ben, a gadwyd i'w gwaredu | | 851 | | 851 | |
| Eiddo Buddsoddi | | 4,500 | | 4,500 | |
| Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | | 9,797 | | 18,511 | |
| | | **15,148** | | **23,862** | |
| **Asedau Anniriaethol** | 19 | 992 | | 500 | |
| **Cyfanswm yr Asedau Diriaethol ac Asedau Anniriaethol** | | | **260,669** | | **393,156** |
| Buddsoddiadau Hirdymor | 35 | 1,052 | | 6,362 | |
| Dyledwyr Hir Dymor | 22 | 23,944 | | 22,641 | |
| | | **24,996** | | **29,003** | |
| **Cyfanswm yr Asedau Hirdymor** | | | **285,665** | | **422,159** |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stociau a Gwaith a oedd ar y Gweill | 23 | 695 | | 910 | |
| Dyledwyr | 24 | 24,245 | | 19,954 | |
| Buddsoddiadau | 35 | 34,903 | | 40,491 | |
| Taliadau Ymlaen Llaw | | 799 | | 2,009 | |
| Arian a Bancio | | 479 | | 341 | |
| | | **61,121** | | **63,705** | |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr | 25 | (14,035) | | (14,219) | |
| Benthyciadau i'w had-dalu o fewn 12 mis | | (18,005) | | 0 | |
| Derbyniadau Ymlaen Llaw | | (5,351) | | (5,551) | |
| Gorddrafft Banc | | (3,408) | | (3,057) | |
| | | **(40,799)** | | **(22,827)** | |
| **Asedau Cyfredol Net/(Rhwymedigaethau Cyfredol)** | | | **20,322** | | **40,878** |
| **Cyfanswm yr Asedau llai'r Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | **305,987** | | **463,037** |
| **Ymrwymiadau Hirdymor** | | | | | |
| Benthyca i'w ad-dalu o fewn cyfnod hirach na 12 mis | 35 | (96,392) | | (142,593) | |
| Darpariaethau | 27 | (8,973) | | (10,366) | |
| Grantiau Llywodraeth a gafodd eu Gohirio | 26 | (73,358) | | (63,238) | |
| Grantiau Cyfalaf na chawsant eu Defnyddio | | (1,079) | | (3,167) | |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | 34 | (93,150) | | (55,186) | |
| | | **(272,952)** | | **(274,550)** | |
| **Cyfanswm yr Asedau llai'r Rhwymedigaethau** | | | **33,035** | | **188,487** |

# <u>Y FANTOLEN</u> (*parhad*)

| | Nodyn | 31 Mawrth 2009 £' 000 | | 31 Mawrth 2008 £' 000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | | | | | |
| Derbynebau Cyfalaf a Ohiriwyd | 29 | 28 | | 39 | |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | 28 | 85,819 | | 206,469 | |
| Cyfrif Addasu Arfau Ariannol | 28 | (1,047) | | (941) | |
| Cronfa Ailbrisio | 28 | 25 | | 0 | |
| Cronfa Bensiwn | 28 | (93,150) | | (55,186) | |
| Cronfa Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio | 28 | 5,465 | | 6,460 | |
| Cronfa Gyfalaf | 28 | 1,971 | | 1,658 | |
| Cronfa Cyflog Cyfartal Wrth Gefn | 28 | (5,800) | | (5,800) | |
| | | **(6,689)** | | **152,699** | |
| Balansau Refeniw: | 28 | | | | |
| Cronfa'r Cyngor | | 3,005 | | 3,005 | |
| Cyfrif Refeniw Tai | | 189 | | 2,141 | |
| Cronfeydd Wrth Gefn | | 36,530 | | 30,642 | |
| | | **39,724** | | **35,788** | |
| **Cyfanswm Gwerth Net** | | | **33,035** | | **188,487** |

# DATGANIAD YNGLŶN Â LLIF ARIAN

| | 2008/09 £'000 | | 2007/08 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| **GWEITHGAREDDAU REFENIW** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Arian a Dalwyd i Weithwyr ac ar eu rhan | 135,182 | | 132,182 | |
| Taliadau Eraill o Arian Gweithredol | 114,668 | | 110,614 | |
| Budd-daliadau Tai a Dalwyd | 29,418 | | 22,891 | |
| Trethi Annomestig a Dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 26,006 | | 24,308 | |
| Praeseptau a Dalwyd | 10,303 | | 9,757 | |
| | | 315,577 | | 299,752 |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Rhenti (Gros) | (6,045) | | (11,502) | |
| Treth y Cyngor a Dderbyniwyd (llai: Ad-daliadau) | (39,478) | | (37,793) | |
| Trethi Annomestig o'r Gronfa Genedlaethol | (29,792) | | (27,357) | |
| Trethi Annomestig a Dderbyniwyd (llai: Ad-daliadau) | (25,268) | | (24,129) | |
| Grant Cynnal Refeniw | (111,267) | | (109,713) | |
| Grantiau Budd-daliadau DWP | (33,561) | | (29,985) | |
| Grantiau Eraill | (74,649) | | (48,398) | |
| Arian a Dderbyniwyd am Nwyddau a Gwasanaethau | (20,068) | | (17,955) | |
| Arian Gweithredol Arall a Dderbyniwyd | (17,859) | | (13,933) | |
| | | (357,987) | | (320,765) |
| Mewnlif Arian Net Gweithgarwch Refeniw (Nodyn 36) | | **(42,410)** | | **(21,013)** |
| **GWASANAETHAU CYLLID** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Llog a Dalwyd | | 6,984 | | 7,695 |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Llog a Dderbyniwyd | | (3,306) | | (3,222) |
| **GWEITHGAREDDAU CYFALAF** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Prynu Asedau Sefydlog | 27,716 | | 27,452 | |
| Costau gohiriedig | 6,658 | 34,374 | 4,904 | 32,356 |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Gwerthu Asedau Sefydlog | (1,928) | | (2,898) | |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a Dderbyniwyd | (17,986) | | (16,360) | |
| Buddsoddiadau Hirdymor | (5,000) | (24,914) | 1,000 | (18,258) |
| **RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL** | | | | |
| Cynnydd (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau | | (5,338) | | (2,751) |
| **Yr All-lif Arian Net Cyn Cyllido** | | **(34,610)** | | **(5,193)** |
| **ARIANNU** | | | | |
| **All-lif Arian** | | | | |
| Ad-dalu Symiau a Fenthyciwyd | | 54,631 | | 48,015 |
| **Mewnlif Arian** | | | | |
| Benthyciadau Newydd a Godwyd | | (19,808) | | (48,015) |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Arian a Phethau Cyfwerth ag Arian** | | **213** | | **(5,193)** |

# NODIADAU AR Y DATGANIADAU CRAIDD

## Nodiadau ar y Cyfrif Incwm a Gwariant

1. **Dadansoddiad o symiau sy'n ychwanegol i weddill/diffyg y Cyfrif Incwm a Gwariant y mae'n ofynnol, yn ôl arferion Statudol/Anstatudol, i'w tynnu a'u hychwanegu at Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn**

| | 2008/09 £'000 | | 2007/08 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| **Y symiau sy'n cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n ofynnol eu heithrio, yn ôl statud, wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor** | | | | |
| Dyled a ad-dalwyd gan LlCC yn dilyn Trosglwyddo Stoc | 25,799 | | 0 | |
| Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog – Cronfa'r Cyngor | (13,639) | | (11,699) | |
| Dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog – CRT | (145,792) | | (10,786) | |
| Amorteiddiad Grantiau'r Llywodraeth a ohiriwyd sy'n cyfateb i ddibrisiad ac amhariad – Cronfa'r Cyngor (Nodyn 26) | 4,645 | | (1,407) | |
| Amorteiddiad Grantiau'r Llywodraeth a ohiriwyd sy'n cyfateb i ddibrisiad ac amhariad – CRT | (80) | | 80 | |
| Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd Dim Gwerth Ychwanegol – Cronfa'r Cyngor | 1,085 | | 3,447 | |
| Grantiau'r Llywodraeth a Ohiriwyd Dim Gwerth Ychwanegol - CRT | 1,289 | | 2,622 | |
| Y symiau a ystyriwyd fel gwariant refeniw yn unol â SORP ond sydd yn dod dan ddosbarthiad gwariant cyfalaf yn ôl statud (h.y. Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud) - Cronfa'r Cyngor | (1,250) | | (1,207) | |
| Y symiau a ystyriwyd fel gwariant refeniw yn unol â SORP ond sydd yn dod dan ddosbarthiad gwariant cyfalaf yn ôl statud (h.y. Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud) - CRT | (1,444) | | (35) | |
| Enillion neu golledion net gwerthu asedau sefydlog (Cronfa'r Cyngor) | 66 | | 165 | |
| Enillion neu golledion net gwerthu asedau sefydlog (CRT) | 696 | | 0 | |
| Trosglwyddo Mantolen Cyflog Cyfartal | 0 | | 0 | |
| Swm lle bo costau ariannol a gyfrifwyd yn unol â SORP yn wahanol i'r swm o gostau ariannol a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol | (105) | | (215) | |
| Costau net budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS 17 - Cronfa'r Cyngor | (11,868) | | (10,257) | |
| Costau net budd-daliadau ymddeol yn unol â FRS 17 - CRT | (142) | **(140,740)** | (345) | **(29,637)** |
| | | | | |
| **Symiau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n ofynnol eu cynnwys, yn ôl statud, wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor** | | | | |
| Darpariaeth statudol i ad-dalu dyledion – Cronfa'r Cyngor (Nodyn 9) | 5,418 | | 4,911 | |
| Darpariaeth statudol i ad-dalu dyledion – CRT (Nodyn 9) | 103 | | 585 | |
| Cofnod Cydraddoli PFI | (665) | | (665) | |
| Gwariant Cyfalaf yn daladwy o Gronfa'r Cyngor | 1,629 | | 1,125 | |
| Gwariant Cyfalaf yn daladwy o CRT | 150 | | 1,075 | |
| Cyfraniad cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a budd-daliadau ymddeol sy'n uniongyrchol daladwy i bensiynwyr - Cronfa'r Cyngor | 12,757 | | 12,543 | |
| Cyfraniad cyflogwr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a budd-daliadau ymddeol sy'n uniongyrchol daladwy i bensiynwyr - CRT | 217 | **19,609** | 379 | **19,953** |
| | | | | |
| **Trosglwyddiadau i neu o Falans Cronfa'r Cyngor y mae angen eu hystyried wrth benderfynu ar Symudiadau Balans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | | | |
| Yn ôl gofynion statud, trosglwyddo gweddill neu ddiffyg y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai, a gyfrifwyd yn unol â'r statud, i falans CRT | (1,952) | | 420 | |
| Cyfraniad o Gronfeydd a Glustnodwyd (ac eithrio ysgolion) | (4,219) | | (3,257) | |
| Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd Cronfa'r Cyngor (ac eithrio ysgolion) | 10,709 | | 8,711 | |
| Cyfraniad i Gronfeydd a Glustnodwyd CRT (ac eithrio ysgolion) | 168 | **4,706** | 0 | **5,874** |
| **Swm ychwanegol net, sy'n ofynnol yn ôl statud ac arferion priodol anstatudol, i'w dynnu neu ei ychwanegu at Falans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn** | | **(116,425)** | | **(3,810)** |

2. **<u>Gwariant ar Gyhoeddusrwydd</u>**

Mae Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol 1986 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i ddatgelu beth fu'r gwariant ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu a oedd wedi eu hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol neu at garfannau penodol ymysg y cyhoedd. Mae'r Cyfrif Refeniw Cyfunol yn cynnwys y symiau canlynol mewn perthynas â:

| | **2008/09** <br> **£'000** | **2007/08** <br> **£'000** |
|---|---|---|
| Recriwtio | 329 | 544 |
| Twristiaeth a Hamdden | 284 | 237 |
| Rhoi Cyhoeddusrwydd i Wasanaethau | 91 | 69 |
| Hysbysebu Arall | 267 | 321 |
| **Cyfanswm** | **971** | **1,171** |

3. **<u>Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio gan Adran 33 Deddf Adran Lywodraeth Leol a Thai 1989)</u>**

Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wario ar weithgareddau neu brosiectau er budd pobl yn eu hardal, lle nad oes pwerau statudol ar gael. Cyfrifwyd bod y gwir wariant dan y pwerau hyn am y flwyddyn yn £316,875 (£402,197 yn 2007/08).

4. **<u>Eitemau Eithriadol</u>**

4.1 O ganlyniad i Drosglwyddo Stoc Tai, mae'r eitemau a ganlyn wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant:

| | **£'000** |
|---|---|
| Niwed | 138,553 |
| Grant Llywodraeth Cynulliad a dderbyniwyd | (33,112) |
| Tremiwn Net | 7,313 |
| **Cyfanswm** | **112,754** |

4.2 Fel rhan o'r cytundeb trosglwyddo, cyflwynodd Cartrefi Conwy anfoneb i'r Awdurdod am £142.1miliwn ar gyfer gwaith uwchraddio'r stoc tai i Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Cyflwynodd yr Awdurdod anfoneb i Gartrefi Conwy hefyd am £142.1miliwn am drosglwyddo asedau

4.3 Mae'r Cyngor wedi talu £900,501 mewn perthynas â'i gostau trosglwyddo stoc ei hun. Hefyd talodd £1,110,681 mewn perthynas â chostau Cartrefi Conwy. Mae'r holl gostau hyn wedi eu had-dalu gan Gartrefi Conwy.

## 5. Gweithgarwch Masnachu

Mae'r Cyngor yn gweithredu pum cynllun masnachu mawr, dyma'r manylion:

